

Y Pwyllgor Addysg Dysgu Gydol Oes

**Y Safon a'r Cyfrwng**

Papur ar gyfer Ymchwiliad y Cynulliad  
Cenedlaethol i Addysg Uwch

gyda phedwar atodiad

gan DAFYDD GLYN JONES  
(Darllenydd yn y Gymraeg,  
Prifysgol Cymru, Bangor)

## CYNNWYS

Rhagair (ii)

Y Safon a'r Cyfrwng 1

### ATODIADAU

1. Problem Prifysgol 18

2. Mhrifysgol Cymru Coleg Ffederal Cymraeg ym  
23

3. Cymraeg Rhagor am y Coleg Ffederal  
29

4. Cyrchwn at y Nod Coleg William Salesbury –  
33

## R H A G A I R

Y mae a wnelo'r prif bapur yn y casgliad hwn, Y SAFON A'R CYFRWNG, ag adrannau 2.2 a 3.5 a faes gorchwyl yr Ymchwiliad. Mae'r pedwar atodiad yn ymwneud â phwnc ail hanner y prif bapur, ac maent yn ddetholiad o blith nifer o bapurau a sgrifennais oddi ar Ionawr 1998 ar y syniad o Goleg Ffederal Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru. Hyderaf y caiff aelodau'r Pwyllgor beth diddanwch o'r papurau hyn. Mae rhagor o bapurau ar bynciau cysylltiol yn y casgliad *Problem Prifysgol a Phapurau Eraill*, a gyflwynais i sylw Cadeirydd y Pwyllgor ychydig yn ôl, ac y gobeithiaf ei gyhoeddi yn y man.

6.4.1

D. G. J.

## Y S A F O N a'r C Y F R W N G

### Cyflwyniad: Y Problemau ..... a'r Broblem

Darllenais â diddordeb Gylch Gwaith yr Adolygiad ar Addysg Uwch a nodiais yn gymeradwyol wrth weld rhai o'r penawdau. Yn sicr y mae yma ofyn rhai o'r cwestiynau iawn. Un o'm gofidiau, wrth dynnu at ddiwedd 34 mlynedd o ddysgu ym Mhrifysgol Cymru, yw na byddid wedi gofyn rhai o'r cwestiynau hyn lawer ynghynt. Bellach y mae bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'i Bwyllgor Addysg Uwch - er gwaetha'r cyfyngiadau sydd ar alluoedd y Pwyllgor a'r amwysedd sylfaenol ym mherthynas y Cynulliad â Phrifysgol Cymru - yn galluogi cynrychiolwyr etholedig ein pobl ac egin-lywodraeth y Cymry i ddechrau wynebu rhai o'r problemau sylfaenol ynghylch ein dulliau a'n hamcanion yn y Brifysgol a'r Sector Uwch drwyddo draw. Yn wir, efallai y daw'r Pwyllgor i ystyried, yng nghwrs ei drafodaethau, yr hyn a elwais i cyn hyn yn "Broblem y Brifysgol", ac a ddiffiniais fel annheyrngarwch y Cymry proffesiynol iddi. Sylwaf yn arbennig ar gwestiwn 1.4: "Sut y gellir gwneud AU yng Nghymru yn fwy deniadol i fyfyrwyr yng Nghymru?" Yr wyf wedi awgrymu'r ateb mewn papurau o'r blaen, a dyma'i roi eto'n gryno: drwy dalu iddynt. Gwneler hi'n werth chweil yn ariannol i'n plant galluocaf aros yng Nghymru wedi'r deunaw oed, ac fe welir pa mor sydyn y newidia agwedd disgyblion a'u rhieni. Y flwyddyn academaidd hon am y tro cyntaf cynigiwyd y premiwm ymarfer dysgu i geisio denu mwy o athrawon i'r sector uwchradd, ac mae wedi gweithio fel gwyrth. Cymhwysr yr un math o ateb at broblem enbyd y "Gwaedu Mawr" o'n hysgolion bob mis Medi. Yr hyn oedd sain pibau Orffews i'r anifeiliaid gwylltion gynt, dyna yw siffrwd papurau decpant ar glust y gwir Cymro. Hynyna yn unig heddiw ar y mater mawr hwn, y mater mwyaf canolog o'r cyfan, fe ddichon.

Trawyd fy llygad gan benawdau eraill yr wyf yn falch fod y pwyllgor yn rhoi sylw iddynt: 1.2 (rôl partneriaeth a chydweithredu), 2.2 (ansawdd a safon mewn cyswllt byd-eang), 3 (adfywio economaidd), 3.5 (dwyieithedd a'r defnydd o'r Gymraeg), 4.1 (cryfhau sylfaen ymchwil), 5.1 (ariannu) a 6.1 (atebolrwydd).

Yn y papur hwn yr wyf am ganolbwyntio ar ddwy agwedd, sef Y SAFON (2.2) a'r CYFRWNG (3.5). Byddai'n dda gennyf feddwl y byddai adran II (Y CYFRWNG) o ddefnydd yn ogystal fel papur trafod i'r rheini sydd a gwir ddiddordeb mewn sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru.

## I. Y SAFON

### 1. Mesur a phwysio

1.1 Ers rhyw ddeng mlynedd bellach aeth bywyd yn y colegau yn un farathon o arolygu, arsylwi, gwerthuso ac asesu, ynghyd â'r holl weithgareddau atodol o fewnbynnu, allbynnu, adborthi, treialu, mentora a monitro. Rhwng paratoi ar gyfer yr arolwg nesaf arnom ein hunain a bod wrthi'r un pryd fel arolygwyr ar rywrai yn rhywle arall, gadewir rhai ohonom heb fawr o amser ar ôl ar gyfer pethau fel astudio, ymchwilio, llunio darlithoedd a chyfarfod myfyrwyr. Ar sail yr arolygon dyfernir gwobrau, ar ffurf symbolaidd (sêr) ac ar ffurf faterol (symiau mawr o arian), a chyfarwydd ydym hefyd â chyhoeddi tablau cynghrair o golegau a phrifysgolion yn dangos eu llwyddiant a'u haflwyddiant mewn dysgu, ymchwil, gofal myfyrwyr ac agweddau eraill. Dyma un o'r pethau sydd, y blynyddoedd hyn, yn gwneud y bywyd colegol yn llai dymunol nag y bu. Diau bod rhai unigolion yn cael rhyw foddhad o fod ynglŷn â phethau o'r fath - onid e ni byddent wedi eu dyfeisio. I'r gwahanol asiantaethau "sicrhau ansawdd", y maent yn fara beunyddiol, yn anadl einioes ac yn bopeth arall angenrheidiol. I'r rhan fwyaf ohonom nid ydynt ond bwrn, ac yn breifat mynegwn amheuan dyfnion ynghylch eu gwerth. Adroddaf beth o'm profiad diflas fy hun o'r gweithgarwch di-fudd hwn:

1.11 Arolwg Dysgu (1996). I'm Hadran i bu'n ddigon didramgwydd gan fod y tri arolygydd hwythau o'r un byd â ninnau ac yn "Bobl y Pethe". Rhoesant inni farc da (diolch bois, gofiwn ninnau amdanoch chwithau ddydd a ddaw), ond clywais wedyn fod y brawd a oedd yn gweinyddu'r arolwg ar ran y Cyngor Cyllido (HEFCW) yn gwarafun y dyfarniad a gawsom ar ryw dir hollol dechnegol nad oedd neb wedi clywed amdano o'r blaen, na ddeallai neb arall beth oedd ar y pryd ac yr anghofiodd pawb amdano yn syth wedyn. Clywais straeon erchyll o golegau eraill: am ddarlithydd o goleg B wedi cael marc gwael, yn beio arolygydd o goleg A, ac yn benderfynol o ddial ar goleg C yr wythnos wedyn pan ddôi ei dwrn ef i fod yn arolygwr. Yr oedd rhai arolygwyr yn credu mewn fideo, eraill yn credu mewn darn o sialc, eraill yn credu mai'r taflunydd dros ysgwydd yw dechrau a diwedd diwylliant; anodd boddio'u mympwyon i gyd, a ffolineb ceisio. Ar ôl rhai dyddiau o ffwddan na welwyd ei fath oddi ar "ddiwrnod yr inspector" yn ysgolion Cymru cyn O.M. Edwards, fe basiodd y cyfan. Nid oeddem fawr gwaeth. Nid oedd neb ohonom ddim gwell chwaith. Y mae ymhellach wrthwynebiad sylfaenol i gynnal arolwg a chystadleuaeth o'r math hwn mewn prifysgol ffederal. Yr ydym oll yn dyfarnu'r un radd ar ddiwedd y dydd. Y canlyniadau gradd ddylai fod yn ffon fesur, yn union fel yn y prifysgolion ffederal eraill, Rhydychen a Chaergrawnt. Mewn sefydliad felly, nid oes rheswm na synnwyr mewn arolygu darlithwyr y colegau ar wahân a dyfarnu ar y diwedd fod darlithwyr Balliol (neu Fangor) yn well na darlithwyr Somerville (neu Abertawe). Gwelais beth o'r ohebiaeth o swyddfa'r arolwg, er na ddylwn fod wedi ei gweld efallai. O ran ei Chymraeg yr oedd yn anllythrennog hyd at fod yn annealladwy. Fe ofynnid i ni, wrth ddysgu'r Gymraeg i fyfyrwyr, gynnal y safonau proffesiynol uchaf; nid oedd yr awdurdod uwch ein pen wedi clywed am y safonau hynny, ac ni wnâi â ni y cwртеisi o ohebu mewn Cymraeg derbyniol. Ffars, o'r dechrau i'r diwedd. Bydded i'r Pwyllgor Addysg Uwch, yn ei argymhellion, ein gwaredu rhag corff y farwolaeth hon.

1.12 Arolwg Ansawdd Colegol (1999). Tebyg fod pob coleg a phrifysgol trwy'r Deyrnas, ac eithrio'r hen brifysgolion, bellach yn cynnal rhyw ymarfer tebyg hwn. Yn lle mynd

ymlaen â'n gwaith, treuliodd pob un ohonom ddiwrnod neu ddau yn cloriannu'n cyrsiau ein hunain, ac yn sgrifennu adroddiadau i ni'n hunain yn dweud wrthym ein hunain sut hwyl yr oeddem yn ei chael arni. Yna daeth twrn y pennaeth adran i astudio ebychiadau narsisistaidd pawb ohonom a rhoi ynghyd hunan-ddadansoddiad cyfansawdd, adrannol. I'r felin hefyd â'r ffurflenni a lenwasai'r myfyrwyr ar ddiwedd pob modiwl, yn rhoi eu hymateb i'r cyrsiau. Bydd y myfyrwyr yn llenwi'r rhain yn frysiog a pheiriannol gan edrych ar atebion ei gilydd, a daw'r un hen sylwadau cwbl ragddywedadwy o'r anwybod torfol flwyddyn ar ôl blwyddyn: "eisiau mwy o seminarau" (gan y rhai na ddywedant na bw na be mewn seminar), "mwy o waith creadigol" (gan y rhai llai creadigol). I ffwrdd â'r adroddiad adrannol wedyn i ryw bwyllgor aruthrol o bwysig dan ryw enw fel "Pwyllgor Sicrhau Ansawdd". Yna daeth diwrnod ein cyfarfyddiad fel adran â phanel o dri a adroddai yn ôl i ni ar ein hansawdd, ac a adroddai hefyd i'r Pwyllgor. Yr oedd dau o'r tri yn gwbl anghymwys i gloriannu gwaith ein hadran ni pa un bynnag; na phoener, efallai y gelwir ninnau ryw ddiwrnod i gloriannu mewn rhyw faes arall lle byddwn yr un mor ddi-glem. Ac fel yna yr aed drwy'r mosiwns. Yr hyn sy'n gwbl sicr yw na wnaed un dim i wella ansawdd. Nid oedd a wnelo un dim ag ansawdd. Llwyth o lol ydoedd. Nid oes neb yn cymryd y pethau hyn o ddifrif ond y taelogaid a'r uchelgeisiol. Nid oes gan yr ymerawdwr ddim trôns. "Digon diniwed," meddwch. Nage, nid diniwed chwaith. Gormes y siarlatan sydd yma eto, a'i heffaith, o'i pharhau, fydd ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i ni ac i'n holynwyr gynnal y safonau y buom yn ceisio'u cynnal drwy'r blynyddoedd.

- 1.13 Arolwg Ymchwil. Cynhaliwyd hwn o dan nawdd yr AHRB bedair blynedd yn ôl ac mae un arall ar y gweill yn awr. Dyfernir sêr (i fyny hyd at bump), a phob seren a hanner seren yn werth swm go fawr o gyllid ar gyfer gweithgarwch y pedair blynedd nesaf. Gwobrwyir adrannau am waith ymchwil rhai sy'n aelodau ohonynt ar ddiwrnod yr arolwg. Os yw darlithydd yn ymadael, boed i'r Brifysgol Fawr yn y Nen neu i goleg neu adran arall, mae'n mynd â'i sêr i'w ganlyn. Dyna pam y tyfodd, ymhlith yr adrannau a'r colegau mwyaf cyfoethog, fasnach anweddus mewn arlithwyr, gyda rhai yn ceisio prynu unigolion oddi ar ei gilydd ag addewidion o arian mwy, neu o fywyd di-fyfyrwyr, di-ddarlithoedd, di-farcio. Cloriennir pob unigolyn (yn ôl y rheol bresennol) ar sail pedair eitem a gyhoeddodd yn ystod y cyfnod penodedig; os oes ganddo bump, neu ddeg, neu ugain, nid oes neb yn diolch iddo. Dyma reol wedi ei dyfeisio gan fwnci yn eistedd mewn swyddfa. Fe'i newidir ryw ddiwrnod, mae'n siŵr, am rywbeth yr un mor fympwyol, ond yn y cyfamser bydd y drwg wedi ei wneud. Yng nghyswllt Cymru ac astudiaethau Cymraeg mae i'r ymarfer hwn ganlyniadau neilltuoel o anffodus. Bu cysylltu â chynulleidfa weddol eang, tu allan i'r colegau, drwy gyfrwng pytiau bach mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau, yn un o draddodiadau da ysgolheictod Cymraeg; fe'i gwneid gan John Morris-Jones, gan T. Gwynn Jones a chan eraill hyd ein dyddiau ni. Ond yn yr ymgiprys am y sêr, nid yw pwt i Lafar Gwlad neu'r Casglwr, neu i bapur bro (boed mor ysgolheigaid ag y bo), neu hyd yn oed ysgrif i Barn, yn werth dim. Rhaid cyhoeddi mewn rhestr gymeradwy o'r cylchgronau "trymach", ac ar ôl cryn berswâd y cafwyd gan y meistri, rywle yn Lloegr, gydnabod hyd yn oed y rheini. Chwarae yw hwn a'i reolau wedi eu llunio gan rai na wyddant ddim am natur y diwylliant Cymraeg, ac sydd, er sawl ymgais i'w goleuo, yn cael cryn drafferth i gredu fod y Gymraeg yn iaith go-iawn. (Gwelir yr un anhawster diwylliannol yn union pan ddaw'r un corff, Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRB), i ddyfarnu grantiau tuag at gynlluniau ymchwil. Penderfynir y cyfan gan bump neu chwech o Athrawon Ieithoedd Modern o rywle yn Lloegr. Waeth ichi heb â dweud "Twm o'r Nant" wrth y rhain. Nid ydynt o'r byd nac o'r bydysawd hwn.) Agwedd arall

hynod anfoddhaol yw nad yw'r Gymraeg yn bwnc yn ei hawl ei hun yn y gystadleuaeth hon. "Celtic" yw'r cyfan. Mae fel petai pob darlithydd a phob adran Saesneg, Almaeneg, Iseldireg, Norwyeg, Daneg, Swedeg, Ffriseg a Ffaröeg oll yn ymaflyd codwm yn yr adran "Germaneg". Digwydd y cyfan o fewn rhyw hinsawdd Kafkaesque, lle nad ymostwng y dyfarnwyr byth i gyfiawnhau nac esbonio'u gofynion a'u cynseiliau. Os gwneud eisteddfod ohoni, fe ddylai fod yna feirniadaeth, a honno'n gyhoeddus. Yr hyn a gawn yn hytrach yw'r gêm iselwael hon, sydd â'r effaith o ddwyn allan y nodweddion mwyaf Lilipwtaidd yng ngwŷr a gwragedd ein proffesiwn. Hyd yn oed wedyn, pe bai'r safonau'n ddiysgog a'r dulliau o weithredu'n ddi-ffael a'r hen natur ddynol yn wahanol i'r hyn ydyw ac effeithiau'r Cwmp heb fod gyda ni o gwbl, fe safai'r gwrthwynebiad sylfaenol i'r math hwn o gystadleuaeth mewn prifysgol ffederal. Tra byddwn oll yn dyfarnu'r un radd ar ddiwedd y dydd, nid oes rheswm na synnwyr mewn cloriannu darlithwyr un coleg yn erbyn rhai coleg arall. Dylai'r Brifysgol gyfan fod yn un mewn cystadleuaeth - os oes angen cystadleuaeth - â phrifysgolion eraill y Deyrnas a'r byd.

1.2 O ble daeth hyn oll? Gallaf feddwl am ddau reswm amdano:

1.21 Rhan o waddol Thatcheraeth ydyw, yr egwyddor fawr fod yn rhaid i rywun gollu.

1.22 Dros y 15 mlynedd diwethaf fe amlhaodd prifysgolion y Deyrnas drwy ddyrchafu ac ailenwi llawer o golegau politechnig, colegau hyfforddi athrawon a cholegau trin traed yn "brifysgolion". Fe sylweddolodd rhywrai'r camgymeriad, ond heb ei addef, wrth gwrs. Yr ateb oedd ceisio ailsefydlu cynghrair o "brifysgolion go-iawn", ac yna uwch-gynghrair o brifysgolion rhagorach. Diben yr holl amrywiaeth o ddulliau cloriannu yw creu cynghreiriau o'r fath. Gwrthun o beth mewn prifysgol ffederal yw unrhyw awgrym y gallai, neu y dylai, rhai o'i cholegau fod mewn cynghreiriau gwahanol i'w gilydd.

1.23 Wedi rhoi'r ddau reswm diwethaf o'r naill du, a oes yn aros reswm gwirioneddol dros ymboeni ynghylch safonau dysgu'r prifysgolion, a thros geisio'u cael i anelu'n uwch drwy eu mesur a'u pwyso, eu gwobrwyo a'u cosbi? Os oes - os, a ddywedaf - yna mi dybiaf mai codi y mae o ansicrwydd academwyr ynghylch eu diben eu hunain a'u defnyddioldeb i gymdeithas. Yn wahanol i lawfeddyg y galon, neu beirianydd sifil, neu ddyn gosod gwres canolog, neu ddyn dal tyrchod, nid oes raid ddarlithydd prifysgol ei chael hi'n iawn y tro cyntaf. Nac yn wir yr ail dro, na'r trydydd tro. Fe â rhai ohonom ymlaen dydd ar ol dydd am ddeugain mlynedd heb ddal y twrch o gwbl. Unwaith yr ydym wedi'n penodi, dyna ni hyd ein pensiwn; cawn ymlafnio gyda'r gwaith neu cawn fod yn gwbl ddiog, dibynna'n llwyr arnom ni ein hunain. Hyd y gwyddom, dwy ffordd sydd o gael ein diswyddo: (a) llosgi Ysgol Fomio, a (b) sgrifennu cyfres o erthyglau i bapur dydd Sul am bres cwrw. Wrth edrych yn ôl ar fy nyddiau fy hun yn fyfyrwr ym Mangor, credaf mai amcangyfrif teg fyddai dweud fod tua hanner ein darlithwyr yn medru darlithio, a bod yr hanner arall yn gwbl anobeithiol. Yr oeddem ni fyfyrwyr yn gwybod yr ateb i'r sym o fewn tair wythnos ar ôl cofrestru, ond ni fyddem yn meddwl cwyno. Dyna fel yr oedd hi. Bwriais ddwy flynedd wedyn mewn prifysgol a ystyrid, mae'n debyg, dipyn yn uwch ei bri na Bangor, a buan y cefais hi'n brifddinas darlithwyr coch y greadigaeth. Cododd cyfartaledd yr anobeithiol i tua'r tri chwarter; ac nid oedd y goreuon cystal â'r goreuon ym Mangor. Yr oedd yno fanteision a rhagoriaethau eraill i ad-dalu am y gwendid, prysuraf i ddweud; mae fy hoffter o'r hen le lawn cyn gryfed â'm gofal am lwydd ac anrhydedd prifysgol fy ngwlad fy hun, ond yn deimlad o natur wahanol, mwy di-boen a diofal. Gŵyr academwyr yn iawn am eu

gwendid. Yn draddodiadol, dychenir meddygon a thwrneiod gan eraill, o'r tu allan; ond mae academwyr yn eu dychanu eu hunain: Tician Tician, Dan Gadarn Goncrit, Eating People is Wrong.

## Small World.

- 1.3 Rywle, y mae nod y dylem oll ymgynraedd ato. Trewais yn ddiweddar ar ddiffiniad da ohono, yn un o lyfrau'r ysgrifennwr taith, Patrick Leigh Fermor:

"It is hard to think of anyone less didactic than my host [gŵr bonheddig ac ysgolhaig o Slofacia ydoedd]. Yet, without any effort, he exerted an emancipating and de-barbarizing influence similar to the mood that radiates from a few exceptionally gifted dons: liberators, that is, whose tact, insight, humour and originality clear the air and store it with new oxygen."

Dyna'r ddelfryd, dyna'r ddawn. Sut i'w meddiannu, ni wn eto. Mae gan rai, nid yw gan eraill. Nid yw'r holl asesu, gwerthuso, arfarnu, treialu a monitro'n mynd ddod â hi ddim nes. Eu heffaith, yn amlach na pheidio, fydd ei lladd. Mae'r un peth yn union yn wir am yr holl gynlluniau "datblygu staff" y clywn lawer amdanynt yn y colegau y dyddiau hyn. Teganau'r siarlataniaid yw'r rheini hefyd; tystiolaeth pawb ond eu dyfeiswyr eu bod yn hollol ddi-werth. Mewn difrif, pa gyngor ymarferol y gall un dyn ei roi i ddyn arall ar sut i ddarlithio'n well? Ar derfyn 34 mlynedd yn y busnes, ni allaf feddwl ond am ddau: mewn ystafell fwy, gwaedda'n uwch; a phaid â dweud "ym" yn rhy aml. Yn y diwedd, efallai bod doethineb traddodiadol Cyngorau Prifysgol yn iawn: penodi'r ymgeisydd ar ei gymhwyster academaidd yn unig, a gadael iddo ef a'i fyfyrwyr gymryd eu siawns wedyn. Efallai y bydd yn un o'r hanner anobeithiol, efallai y bydd yn un da. Byddai'n dda meddwl fod yna gynllun gwell. Ni wn beth yw.

## **2. Ffon Fesur?**

Yn y diwedd, a oes ffon fesur rhwng prifysgolion? Oes, dwy.

- 2.1 Y gyntaf yw gofynion mynediad. Os yw prifysgol yn gofyn tair A gan bob myfyriwr newydd, mae hi'n well prifysgol yn y fan. Pam nad yw pob prifysgol yn ei wneud? Am nad oes ond hyn-a-hyn o fyfyrwyr felly. Yn wir, dim ond dwy brifysgol o hyd yn y Deyrnas Gyfunol a all gymryd eu dewis o blith ymgeiswyr â thair neu bedair A, derbyn rhai am fod ganddynt y rhywbeth ychwanegol braidd-yn-anodd-ei-ddiffinio hwnnw, a gwrthod eraill am nad ydynt yn hoffi eu hacen neu eu hosgo. Mae hynny'n bosibl am mai dethol a meithrin élite i arwain, gweinyddu a gwasanaethu cenedl y Saeson yw eu pennaf a chyntaf swyddogaeth o hyd - er bod ganddynt swyddogaethau eraill. Diben cyntaf Prifysgol Cymru - ni welaf sut y gall fod yn wahanol - yw cynnig addysg resymol, am bris rhesymol, i nifer rhesymol o'n plant; ni olyga hynny na allai hi, ac na ddylai, ar yr un pryd, feithrin élite cenedlgarol Cymreig, pobl flaengar, alluog, ffyddlon, sy'n mynd i aros a gweithio yng Nghymru a'i gwasanaethu - na fyddwn byth yn swil o'r swyddogaeth honno.
- 2.2 Yr ail ffon fesur yw perfformiad myfyrrwyr yn eu graddau. Mae hon yn safon gwbl ddilys i'w chymhwyso rhwng colegau mewn prifysgol ffederal, fel y gwneir yn Rhydychen a Chaergrawnt. Mae hynny'n dal yn bosibl iddynt hwy am fod yr arholi ym mhob pwnc yn gyffredin ac yn unffurf drwy'r brifysgol. Dydd anffodus Brifysgol Cymru



oedd y dydd yr aeth y colegau mor fawr fel na allai un arholwr allanol gloriannu holl ymgeiswyr y pwnc er mwyn dyfarnu'r radd Brifysgol gyffredin. Rhoddodd y rhan fwyaf o adrannau y gorau i'r arholi canolog ers blynyddoedd, er y gallai rhai o'r adrannau llai, petaent yn dewis, fod wedi cadw ato. Os iawn yn deallaf, dim ond yr adrannau Cymraeg sy'n cadw'r arfer erbyn hyn; hyd yn oed yma collodd beth o'i dilysrwydd trwy fod yr arholydd allanol yn arholi dau neu dri choleg yn unig ar y tro yn hytrach na'r cyfan ohonynt. Os yw Prifysgol Cymru am sefydlu a chynnal ei henw da fel prifysgol fawr Ewropeaidd a chydwladol, mae'n rhaid iddi gael y niferoedd i lawr, drwy godi'r gofynion, hyd at bwynt lle gellir gweithredu gwir system o arholi cyffredin unwaith eto.

2.3 Dylid mynd ymhellach. Dylid estyn yr egwyddor o arholi cyffredin fel ei bod yn cynnwys nid yn unig gloriannu ar holl ymgeiswyr y pwnc gan un arholydd, ond hefyd elfen gyffredin i holl fyfyrwyr y pwnc, ar draws y Brifysgol, yn eu harholiadau terfynol. Dylai llwyddiant yn yr arholiad cyffredin fod yn un llwybr tuag at gymhorthdal i astudio am radd uwch. Rhagwelaf batrwm fel hyn:

2.31 Arholiad pynciol cyffredin, drwy'r Brifysgol, yn cynnwys efallai ddwy elfen: (a) maes llafur cyffredin wedi ei nodi ymlaen llaw gan yr arholydd allanol a'i ddysgu gan ddarlithwyr y coleg unigol; (b) cwestiynau cyffredinol, heb bartoad ar eu cyfer, wedi eu gosod gan yr arholydd allanol; prawf ar ddiwylliant yr ymgeisydd yn ei bwnc, ac ar ei allu i gydlynu a chymwysu'r hyn a ddysgodd yn ei goleg.

2.32 Arholiad cyffredinol cyffredin, drwy'r coleg yn unig: rhywbeth tebyg o ran egwyddor i "bapur cyffredinol" arholiadau mynediad neu ysgoloriaeth, prawf eto ar ddiwylliant yr ymgeisydd a'i allu i weld ei bwnc ei hun fel rhan o beth mwy. Gellid gogwydd gwyddonol neu ogwydd celfyddydol i'r papur, yn ôl dewis yr ymgeisydd; ond dylai'r ymgeisydd o Gemegwr gael cyfle i ddweud ei bwt am ffilm, llyfr, drama neu ddarlun, helyntion yr oes a phroblemau gwareiddiad, a dylai'r efrydydd Cymraeg neu Hanes allu traethu'n llai arbenigol, ond eto'n ddeallus, ar gychwyniad y bydysawd neu'r chwyldro cyfathrebol neu beirianeg enetig.

2.4 Mater mewnol i'r Brifysgol a'i cholegau fyddai dewls gweithredu rhywbeth fel hyn. Gall Pwyllgor Addysg Uwch y Cynulliad roi pwniad. Gall wahodd y Brifysgol i ddechrau meddwl yn y cyfeiriad hwn, drwy ddechrau awgrymu y math o addysg y bydd yn werth chweil i lywodraeth Gymreig ei noddi yn y pen-draw. Os dywed adroddiad y Pwyllgor mai dyma'r unig fodd gwirioneddol o warchod a gwella'r "ansawdd", fe gyfiawnheir y llafur o gynnal yr Arolwg.

## II. Y CYFRWNG

### **1. Talcen Caled**

1.1 Mae'r syniad o addysg brifysgol Gymraeg yn hŷn nag a dybir yn gyffredin. Darllener cyfrol J. Gwynn Williams, *The University Movement in Wales* (1993), tt. 8-19, ac fe synnir cymaint oedd o drafod ac annog, ym mlynnyddoedd ffurfio mudiad y Brifysgol,

ar y posibilrwydd o golegau cenedlaethol yn cyflwyno amrediad eang o bynciau trwy'r Gymraeg.

- 1.2 Rhyngom a hynny oll daeth y Llyfrau Gleision (1847). Erys eu dylanwad o hyd. Ceir rhieni ysgol Gymraeg yn gwrthwynebu dysgu pynciau trwy'r Gymraeg, a chynghorwyr plaid genedlaethol yn eu cefnogi, ac aelodau Cynulliad o'r un blaid yn anwladu.
- 1.3 Dan gysgod y Llyfrau Gleision y ganwyd Prifysgol Cymru a'i cholegau. Rhagdybiwyd o'i chychwyniad mai Saesneg fyddai cyfrwng dysg, addysg, hyfforddiant a diwylliant. Am ymron drigain mlynedd wedi corffori'r Brifysgol ni bu unrhyw her i'r dybiaeth hon. Yn Llys y Brifysgol ym 1951 agorwyd trafodaeth betrus ar bosibilrwydd coleg Cymraeg. Unig ffrwyth y drafodaeth honno fu dechrau, wyth mlynedd yn ddiweddarach, ar broses araf iawn o benodi darlithwyr TG, bron yn gyfangwbl ym Mangor ac Aberystwyth, un yma ac un acw hyd at y nifer syfrdanol o ddau ddwsin. Ym 1966 ffurfiwyd Bwrdd y Brifysgol ar Ddysgu trwy'r Gymraeg, a'i ailffurfio ym 1978 a 1997.

## 2. Trafodaethau'r Bwrdd

- 2.1 Yng ngwanwyn 1998 cafodd y Bwrdd ar ei newydd wedd rywbeth i gnoi arno, sef y cynnig a basiwyd yn unfrydol gan y gynhadledd ym Mangor dan yr enw "Y Gymraeg 16+ - Y Ffordd Ymlaen" (23 Ionawr 1998). Dyma'i eiriad unwaith eto:

Fod y Gynhadledd hon yn gofyn i Fwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg Prifysgol Cymru, drwy ymgynghoriad â'r Gyfandran Astudiaethau trwy'r Gymraeg yn Aberystwyth, â'r Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg ym Mangor, ac ag unigolion yn holl golegau Prifysgol Cymru, lunio cynllun ar gyfer coleg Cymraeg ffederal o fewn y Brifysgol ffederal, i'w gyflwyno i Gyngor a Llys y Brifysgol.

Bu'r Bwrdd yn cnoi am ryw flwyddyn, a chaed mwy nag un awgrym ei fod yn ffafriol i'r datblygiad hwn. "Cytunwyd â'r syniad o goleg ffederal", meddai cofnodion 30 Mehefin 1998. Gofynnwyd i Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd ddwyn adroddiad. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd 29 Ionawr 1999 nid oedd argymhelliad o blaid coleg ffederal.

- 2.2 Oddi ar hynny bu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn betrus hyd yn oed o gofnodi eu bod wedi bod yn trafod y peth. Aeth y tri gair "coleg ffederal Cymraeg" yn dipyn o embaras, ac o edrych ar wahanol ddrafftiau dogfen y Bwrdd "Ehangu'r Ddarpariaeth - Y Ffordd Ymlaen" gellir eu gweld yn ymddangos ac yn diflannu bob yn ail:

Hydref '98 - allan  
Ionawr '99 - i mewn  
Awst '99 - allan.

Efallai y cofir fy nghymhariaeth â "Ilun Trotschi" mewn papurau blaenorol. Yn fersiynau Ionawr ac Awst '99 argymhellid consortium DTG i wneud y gwaith yn hytrach na choleg; hwnnw oedd gair y dydd a'r awr, a'r ateb bob problem. Rhwng hynny a heddiw aeth y consortium yn consortia, ac yna diflannu'n llwyr!

- 2.3 Hyd yma, yr unig beth pendant a ddaeth allan o drafodaethau'r Bwrdd fu creu swydd y Cydlynnydd a'i llenwi ym Medi 2000. Yr oedd hyn yn un o'r pethau y bûm yn eu hargymell, ac 'rwyf wedi ei groesawu.
- 2.4 Nid oes gennyf unrhyw ffydd y gwna'r Bwrdd unrhyw beth pellach i newid y sefyllfa. Mae gwendid y ddogfen "Ehangu'r Ddarpariaeth" yn adlewyrchu gwendid y Bwrdd ei hun, ei gyfansoddiad a'i aelodaeth. Ni chynrychiolir arno bron neb o'r rhai sydd o ddydd i ddydd yn cynnal dosbarthiadau TG, na bron neb o'r rhai sydd wrthi'n cynhyrchu llyfrau, erthyglau a defnyddiau ar eu pynciau TG. Casgliad ydyw o addysgwyr, biwrocratiaid, cynrychiolwyr cwangos eraill a chynrychiolwyr colegau na buont, hyd yma, yn enwog am eu brwdfrydedd dros DdTG. (Byddai'n ddiddorol gwybod a fydd y Bwrdd, yn ei dystiolaeth i'r Arolwg hwn, wedi cynnwys argymhelliad o blaid Coleg Ffederal Cymraeg; neu wedi crybwyll y tri gair o gwbl. Os bydd, efallai y tynnaf yn ôl rai o'r pethau a ddywedais amdano ...)

### 3. Cerddwn Ymlaen

- 3.1 Os oes digon o bobl o fewn y Brifysgol a'r sector uwch yn gyffredinol â gwir awydd i weld sefydlu coleg ffederal Cymraeg, dylent, fel cam cyntaf, ddod at ei gilydd ac ymfurfio'n goleg gwirfoddol, darpariaethol, dan ryw enw priodol dros dro. Ymddengys i mi mai dyna'r unig ffordd ymlaen.
- 3.2 Ond cymerwn rybudd o'r gorffennol. Ar yr union egwyddor hon y sefydlwyd y Colegiwm Cymraeg ganol y 1980au. Gobaith y sylfaenwyr bryd hynny oedd y byddai'r -wm mewn amser yn diflannu ac y derbynnid y corff hwn fel coleg Cymraeg yn gwasanaethu'r Brifysgol ac yn rhan o'i threfn. Gweithiodd rhai unigolion yn galed i'w sefydlu, a dechreuwyd ar y gwaith o gyhoeddi defnyddiau addysgol yn ei enw. Yr oedd yr aelodau'n talu tâl aelodaeth am y faint o gael gwneud y gwaith hwn, tra oedd y Lefiad a'r Offeiriad yn mynd o'r tu arall heibio. Ni chlywais neb yn dweud dim yn ei erbyn; nid oedd angen i'r hunanbwysig a'r uchelgeisiol ond cadw draw a chymryd arnynt nad oeddent wedi clywed amdano. "A cherllaw iddynt hwy y cyweiriodd y Tecoaidd; ond eu gwâr mawr ni osodasant eu gwddf yng ngwasanaeth eu Harglwydd" (Nehemeia 3, adn. 5). Ni chydabu'r un o gyrff swyddogol y Brifysgol fod y Colegiwm yn bodoli, ac ni chyrrhaeddodd yntau'r pwynt lle gallai roi pwysau arnynt. Rhwng un peth a'r llall, pallodd y gweithgarwch a'r diddordeb rywdro ddechrau'r '90au. Er hynny y mae'r Colegiwm yn dal mewn bodolaeth, fel y mae Senedd Glyndŵr yn dal mewn bodolaeth, yn yr ystyr ei fod wedi ei gyfansoddi a heb erioed ei ddiddymu.
- 3.3 Nac ailadroddwn y camgymeriad hwn. Ond y mae bellach un ffactor gwahaniaethol, sef bodolaeth y Cynulliad a'i Bwyllgor Addysg Uwch, a'r ffaith fod y Pwyllgor wedi dewis cynnal yr Adolygiad hwn, a bod y cylch gorchwyl yn cynnwys adrannau fel 1.4 a 3.5. Mawr obeithiaf y bydd bellach yn bosibl i gnewyllyn coleg ffederal Cymraeg gynnal dialog, yn gyntaf â'r Cynulliad, ac ychydig yn nes ymlaen a'r cyrff priodol o Brifysgol Cymru.
- 3.4 Dylid yn awr ffurfio cnewyllyn Coleg Ffederal Cymraeg Darpariaethol, cyhoeddi ei fodolaeth a gosod safle iddo ar y We. Ar y safle byddai'n bosib adrodd am gamau'r

drafodaeth rhwng y CFfCD, y Cynulliad a'r Brifysgol, ac adrodd hefyd efallai am gynnydd yr aelodaeth - pwy sydd wedi ymuno, pwy oedd yn rhy brysur i ateb &c.

3.5 Gwelaf ddau ddull posibl o ffurfio'r cnewyllyn:

(a) Dwyn ynghyd Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg (Bangor) a Chyfadran Astudiaethau trwy'r Gymraeg (Aberystwyth) un ai dan gyd-gadeiryddiaeth y ddau Gyfarwyddwr neu dan gadeiryddiaeth niwtral; ac estyn gwahoddiad agored i unigolion o'r colegau eraill.

(b) Aelodaeth unigol yn unig.

Yr wyf yn ochri at (b). Credaf y byddai'r cnewyllyn yn gadarnach pe bai pob un o'r aelodau wedi gwneud dewisiad personol ac wedi datgan ymrwymiad.

3.6 Ar gyfer y cam cyntaf un byddai raid wrth bwyllgor llywio gyda rhyw gynrychiolaeth - ni waeth pa mor fechan - o Fangor ac Aberystwyth. Dylai'r pwyllgor hwn wneud y canlynol:

(a) llunio'r braslun brasaf erioed o drefn weithredu;

(b) dewis enw dros dro i'r corff;

(c) geirio amcan dros dro, fel y gellid gofyn i'r aelodau ymrwymo i rywbeth wrth iddynt ymuno.

3.7 Byddai raid wrth ysgrifennydd gweithgar a fyddai'n llwyr gredu yn y syniad a'r weledigaeth.

3.8 Dylai'r pwyllgor llywio wedyn, drwy gyswllt personol, geisio dwyn ynghyd gnewyllyn aelodaeth. Credaf y byddai 20-24 yn nifer addas i anelu ato, yn wir yn nifer anghenrheidiol i wneud y cyfan yn gredadwy. Dylid ceisio ennill yr aelodaeth o blith y canlynol:

(a) Aelodau llawn-amser [?a rhan-amser] o staff sefydliadau Prifysgol Cymru a Phrifysgol Morgannwg [? a sefydliadau eraill y sector addysg uwch yng Nghymru] a chanddynt y cymwysterau hyn:

(i) Gradd uwch (Meistr neu Ddoethur neu radd uwch gydnabyddedig arall) [gan eithrio gradd MA Rhydychen neu Gaergrawnt, sy'n raddau dechreuol] mewn pwnc heblaw'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd;

(ii) Gradd anrhydedd neu gyd-anrhydedd mewn pwnc heblaw'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ynghyd ag unrhyw radd uwch. Amcan y gofyniad hwn fyddai (i) sicrhau'r pwysau neu'r sylwedd academiaidd; (ii) sicrhau na byddai'r corff newydd yn ymddangos o'i gychwyniad yn atodiad i'r Adrannau Cymraeg.

(b) Cynrychiolaeth, e.e. un o bob adran, o adrannau Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru. Y mae dau reswm pwysig dros gynnwys y gynrychiolaeth hon: (i) sefydlu o'r cychwyn berthynas ffurfiol ond ystyryth rhwng y CFfC ac un o gyrff

cydnabyddedig y Brifysgol; (ii) sicrhau llais o'r cychwyn i'r unig gorff Prifysgol sydd wedi ymateb drwy'r blynyddoedd i'r alwad a'r angen am ddysgu TG; a chorff yn wir a anwybyddwyd - neu a drowyd allan - pan aed i ailffurfio cyfansoddiad y Bwrdd DTG ym 1997.

(c) (?) Aelodaeth ex-officio, e.e.

(i) (?) Y Cydlynnydd;

(ii) (?) Penaethiaid adrannau yn y Brifysgol [? a cholegau eraill o'r sector uwch] sy'n dysgu hyn-a-hyn o fodiwlau TG yn y flwyddyn mewn pwnc heblaw'r Gymraeg.

(iii) (?) Aelodau'r Adrannau Cymraeg.

3.9 Byddai'n rhaid i bawb o gategoriâu (b) ac (c) hefyd ddatgan ymrwymiad i'r amcan yn union fel aelodau categori (a), fel ag i gadw allan y gwamal a'r anwadal.

#### **4. Dechrau Cerdded**

4.1 Beth a ofynnid gan aelodau'r cnewyllyn? Cefnogi'r syniad ac arfer eu dylanwad yn gyson o'i blaid, heb wyro ar yr aswy law nac ar y dde; cyfrannu o'u barn a'u gweledigaeth ar sut orau i estyn yr aelodaeth ac sicrhau cydnabyddiaeth i'r CFfC o dan drefn y Brifysgol.

4.2 Gwaith y cnewyllyn fyddai:

(a) Llunio drafft gyfansoddiad, i'w gadarnhau neu i'w ddiwygio yn y man gan aelodaeth ehangach, yn diffinio trefn a gweithrediad CFfC a'i berthynas â'r Brifysgol ac â'r Colegau daearyddol;

(b) Cychwyn dialog â'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Pwyllgor Addysg Uwch gydag golwg ar gael cydnabod a chyllido'r CFfC;

(c) Cynllunio camau trafodaeth â Llys, Cyngor, Bwrdd Academiaidd a Bwrdd Is-ganghellorion Prifysgol Cymru, ac â Chynghorau a Seneddau rhai o golegau'r Brifysgol, ac efallai â'r awdurdodau priodol mewn colegau eraill yn y sector uwchradd yng Nghymru.

(ch) Penderfynu ar ffyrdd o estyn ei aelodaeth ei hun, gan ystyried, e.e.: (i) aelodaeth agored i unrhyw rai o blith staffiau colegau PC [?a sefydliadau eraill y sector uwch] sy'n dymuno ymaelodi ac sy'n fodlon arddel yr amcan; (ii) aelodaeth gyswllt i eraill a fyddai'n dymuno cyfrannu'n rhan-amser at waith y CFfC; e.e. rhai sy'n gweithio tu allan i Gymru ond a allai gynnig modiwlau drwy ymweliadau a/neu drwy gyswllt fideo. Y mae ystyriaethau o blaid ac yn erbyn y ddau gategori hyn o aelodaeth, oll i'w hystyried yn ofalus.

4.3 Cofier mai holl ddiben sefydlu'r aelodaeth wirfoddol a darpariaethol hon fyddai ei bod, drwy dderbyn nawdd a chefnogaeth llywodraeth Cymru, yn gallu ychwanegu at ei nifer ei hun, o fewn amser cymharol fyr, nifer teilwng o ysgolheigion cymwys ac awyddus i weithio trwy'r Gymraeg. Beth yw "nifer teilwng"? Soniais o'r cychwyn am tua 200, a glynaf at y ffigiwr hwn. Beth yw'r "amser cymharol fyr"? Awgrymaf ryw bum mlynedd.

## 5. Cymrodyr

5.1 Dylai'r aelodau oll fod yn Gymrodyr, ac mewn egwyddor yn gyfartal oll â'i gilydd, fel y mae Cymrodyr colegau'r hen brifysgolion.

5.2 Byddai gweithgarwch y Cymrodyr yn gyfuniad o (a) dysgu myfyrwyr a (b) cyhoeddi ffrwyth ymchwil yn Gymraeg ar eu pwnc. Byddai'r cyfan yn ôl y cyfle a'r galw, ond heb or-bwyslais ar y galw o du'r myfyrwyr. Byddai raid anghofio am "gyfradd staff-myfyrwyr" yn yr ystyr y buom yn gyfarwydd â hi. Os gall un dysgawdwr hyfforddi ac ysbrydoli un disgybl TG mewn cangen arwyddocaol o wybodaeth fe lwyr gyfiawnheir ei benodi. Efallai y daw'r un disgybl hwnnw yn y man i hyfforddi ac ysbrydoli deg neu gant. Efallai na ddaw. Ond rhaid ystyried yn cyfan fel buddsoddiad at yfory.

5.3 Rhagwelaf dri chategori o Gymrodoriaethau:

(a) Cymrodoriaethau Dysgu Hŷn, lle disgwyliad i'r Cymrawd gyflawni holl ddyletswyddau arferol darlithydd prifysgol mewn dysgu, hyfforddi, arolygu, cloriannu, arholi ac ymchwilio; byddai gradd uwch yn gymhwyster qofynnol.

(b) Cymrodoriaethau Ymchwil Hŷn, ar gyfer rhai a fydd eisoes wedi profi medr a chymhwyster; cyfle i ymchwilio ymhellach a chyhoeddi, gyda disgwyliad i gyhoeddi cwota o ffrwyth ymchwil yn Gymraeg a/neu ddarparu defnyddiau addysgol Cymraeg yn eu maes.

(c) Cymrodoriaethau Ymchwil Iau, i rai newydd raddio; cyfle i weithio tuag at radd uwch, gyda disgwyliad un ai i gyflwyno a chyhoeddi TG neu i gyhoeddi yn unig TG.

5.4 Y nod a'r gobaith fyddai meithrin, dros amser, gronfa a chymdeithas o feddylwyr Cymraeg yn holl ganghennau dysg, sef y dasg y methodd y Brifysgol mor alaethus ynddi - methu drwy beidio a thrïo - dros y blynyddoedd. Efallai ei bod yn rhy hwyr. Efallai fod dirywiad y Gymraeg yn y gymdeithas y tu allan wedi cerdded yn rhy bell. Efallai fod y gymdeithas honno wedi ei thlodi'n anadferadwy drwy allfudo a gwrthgilio'r ieuencid galluocaf. Ond rhaid rhoi cynnig arni. Dylai'r CFfC adolygu ei sefyllfa ei hun bob pum mlynedd, a bod yn barod i'w ddiddymu ei hun os nad yw'n gwneud cynnydd. Dylem feddwl ddeg gwaith cyn creu sefydliad arall sy'n mynd i ddrifftio 'mlaen yn ddibwrpas heb gyflawni dim byd.

5.5 Ni ddylid amlhau swyddi gweinyddol, ond cystal wynebu y byddai raid wrth gynhaliaeth ysgrifenyddol gref, gan y byddai'r gwaith yn ymwneud cymaint â darparu defnyddiau newydd yn Gymraeg, a chan nad yw'r colegau daearyddol hyd yma wedi ymorol am sicrhau'r gynhaliaeth hon. (Gwelaf obaith gwella ym Mangor os gwiredir adran 3.4 o'r polisi iaith sydd newydd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith.)

5.6 Wrth ethol Cymrodyr ni ddylid talu gormod o sylw i'w meysydd a'u dosbarthiad. Y cymhwyster sylfaenol fyddai gallu ac awydd i drin eu pynciau - beth bynnag fônt - drwy'r Gymraeg. Pe ceid ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, a'r ail, a'r drydedd, fod tipyn o anghydbwysedd yn para rhwng y pynciau, ni byddai'n ddiwedd y byd. Dyweder fod tua 200 wedi eu penodi ar ddiwedd pum mlynedd. Byddai pump yr un mewn 40 o bynciau, neu saith yr un mewn 28 o bynciau, yn edrych yn daclus. Ond nid oes raid iddi fod mor daclus â hynny. Cadwer llygad yn ddiysgog ar y nod: sicrhau i Gymru wasanaeth pob un sy'n gymwys ac awyddus i astudio a dysgu ei bwnc ar lefel academaidd uchel TG.

## 6. Adeiladu Cryfder

6.1 Wedi dweud hyn oll, y mae dadleuon dros adeiladu cryfder mewn rhai meysydd: (a) meysydd creiddiol a all fwydo a chynnal meysydd eraill; (b) meysydd lle mae gennym beth arbenigedd neu draddodiad eisoes; (c) yn yr eithaf arall, meysydd a esgeuluswyd yn ddybryd. Gan gofio'r tair egwyddor hyn, daw rhyw bedwar prif faes i'm meddwl fel rhai i ganolbwyntio arnynt yn y blynyddoedd cyntaf:

6.11 Mathemateg. Llawforwyn y gwyddorau eraill oll; pwnc a all orgyffwrdd neu gyfuno hefyd a phynciau celfyddydol; a phwnc rhad i'w ddysgu!

6.12 Llenyddiaeth Gymharol. Llai heddiw nag erioed yw swm y dysgu TG ar ieithoedd a llenyddiaethau modern eraill yn y Brifysgol - Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg &c. Mae'r cyfan yn dibynnu ar ewyllys da unigolion. Yr wyf wedi sôn droeon mewn manau eraill am y modd y diflannodd y Cymry Cymraeg yn llwyr o'r Ysgol Ieithoedd Modern ym Mangor dros y pum mlynedd diwethaf. Yr unig ffordd ymlaen a welaf yw bod ieithoedd a llenyddiaethau (heb anghofio'r hen glasuron ychwaith) yn cael eu trafod oll dan adain Ysgol Len Gymharol mewn Coleg Ffederal Cymraeg. Yr her fyddai dysgu agweddau cymharol ac yr un pryd ddysgu'r ieithoedd unigol a'r llenyddiaethau cenhedlig at safon a fyddai cyfuwch â safon gradd mewn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg &c. Pwy wŷyr na byddai yma gyfle hefyd i adfer, yn y meysydd hyn, beth o'r pwyslais iaith-a-llên traddodiadol, gan wastraffu llai o amser ar Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd, gweithrediadau'r Bourse ac amserlenni'r Métro?

6.13 Y cyfuniad Gwleidyddiaeth - Cymdeithaseg - Economeg. Pan lanswyd Cymdeithaseg ym Mangor ddiwedd y 1960au ef oedd y cryfaf oll o'r pynciau a ddysgid TG - bron heb eithrio'r Gymraeg ei hun. Yr oedd 6-7 o ddarlithwyr yn abl i gyflwyno'r pwnc TG, rhai wedi eu penodi dan gynllun y Brifysgol, eraill yn ei wneud o wirfodd. Bu dirywiad enbyd o ran nifer y darlithwyr oddi ar hynny, ond erys cof am yr hyn y bu'n bosibl ei wneud, dros gyfnod, am fod yno'r awydd a'r weledigaeth. Adran Wleidyddiaeth Aberystwyth yw'r unig fan trwy holl Brifysgol Cymru lle gwelwyd twf cyson a chyllunio pwrpasol mewn DTG dros y deng mlynedd diwethaf. Ryw fodd neu'i gilydd (ni pherthyn i mi ddweud sut) fe ddylid ceisio adeiladu ar y ddwy sylfaen hyn, a changhennu hefyd i gyfeiriad Economeg, sy'n gorgyffwrdd â'r ddau faes. Mae perygl i Economeg yn y Brifysgol fynd yn rhy ddarostyngedig i'r pwnc galwedigaethol Bancio; nid drwg o beth fyddai adfer rhywfaint o'i bri fel ffug-wyddor draddodiadol. Mae cyfle unigryw yma hefyd i ddechrau ailgyflwyno, o dipyn i beth, y pwnc Athroniaeth, a esgymunwyd yn enbyd fel rhan o chwalfa'r pynciau traddodiadol ganol y 1980au. Mae canghennau o athroniaeth, sef athroniaeth gymdeithasol, wleidyddol a moesol, a fyddai'n cyfuno'n dda â modiwlau mewn Gwleidyddiaeth, Cymdeithaseg

ac Economeg. Mae PPE (Politics - Philosophy - Economics) yn gyfuniad traddodiadol gan Brifysgol Rhydychen, a chyfuniad sy'n dal i ateb diben ac i apelio at fyfyrwyr drwy lawer o dreigl a thro. Dylai fod yn nod gan Brifysgol Cymru sefydlu'r un math o gyfuniad TG dan adain y Coleg Ffederal Cymraeg.

- 6.14 Dylid cynnig helaethrwydd o fodiwlau Cymraeg o'r cychwyn mewn o leiaf un wyddor go iawn. Ni wn ddim am y colegau eraill, ond ym Mangor y mae rhyw gymaint o gynsail yn y gwyddorau electronig a'r gwyddorau bywydegol yr un modd, yn yr ystyr fod myfyrwyr unigol yn y gorffennol wedi cyflwyno gwaith TG ynddynt, ac y bu peth trafod TG mewn tiwtorialau ac uwchben gwaith ymarferol. Ni allaf ddweud dim mwy am yr agwedd hon, a byddwn yn falch o glywed barn a phrofiad y gwyddonwyr a welai'n dda ymuno â'r "cnewyllyn". Ond dalier ar bob cyfle i wrthbrofi'r dybiaeth gyndyn na ellir, neu na ddylid, dysgu'r gwyddorau TG.
- 6.2 Yn y sylwadau uchod diau y synhwyrir cryn bwyslais ar yr academaidd a'r traddodiadol, a dichon y cyferbynnir hynny â'r pwyslais ar y galwedigaethol yn nogfen y Bwrdd DTG "Y Ffordd Ymlaen". Mae addysg alwedigaethol Gymraeg yn eithriadol bwysig, a dylai fod yn brif fusnes rhannau o'r sector uwch. Ond prif fusnes prifysgol yw meithrin meddylwyr, ac am nad yw wedi gwneud hynny rhaid i Brifysgol Cymru gymryd ei chyfran o'r bai am dlodi meddyliol Cymru heddiw. Goddefer dau sylw yma: (a) Nid yw meddylwyr o angenrheidrwydd yr un peth â deallusion; ond wrth ddweud "meddylwyr" yr ydym yn cynnwys deallusion. (b) Nid ei deallusion yw prif ogoniant cenedl; eto mae'n rhaid eu cael.

## 7. Ystwytho a Chaledu

- 7.1 Mae tair blynedd er pan ddechreuais gynhyrchu papurau ar y testun hwn. Mae fy agwedd wedi caledu ar ambell beth; ar ambell beth arall fe'm darbwyllwyd gan ddadleuon un neu ddau o gyfeillion:
- 7.11 Ar y dechrau yr oeddwn yn meddwl am y CFfC yn gyntaf a phennaf fel tîm i wasanaethu'r Brifysgol drwyddi draw ac i amlhau'r modiwlau TG yn y colegau daearyddol. Gwelaf yn awr yn gliriach y peryglon o leoli rhyw un yma a dau acw o Gymrodyr y CFfC fel cyrains prin mewn pwddin. Cael eu llyncu y byddent gan drefn Adrannau ac Ysgolion a fyddai'n dal yn sylfaenol ddifater neu elyniaethus, a mynd yn ddihitio fel eu cydweithwyr yn y fan a'r lle. Dylid anelu at leoli tîm cryf o Gymrodyr (dyweder 6) ym mhob canolfan gweithgarwch, yn atebol i'w gilydd fel Gymrodyr yn hytrach nag i bennaeth adran gelyniaethus. Arweinia'r un rhesymeg ni i feddwl y dylai'r CFfC cyn bo hir iawn anelu at sefydlu ei gynlluniau gradd ei hun dan y Brifysgol.
- 7.12 Argyhoeddir fi'n fwy bellach gan y ddadl y dylai'r CFfC feddu ar ryw ganolfan weladwy ym mhob un o'r mannau lle byddai ganddo gangen; canolfan ar gyfer peth o'r dysgu, a pheth cymdeithasu hefyd. Nid yw hyn yn groes o gwbl i'r egwyddor fawr y dylai pob aelod o'r CFfC fod yr un pryd yn aelod llawn o'r coleg daearyddol yn y fan a'r lle. Mae gennyf ddarlun cryf yn fy meddwl o ganolfan ddichonol ym Mangor. Am drefi prifysgol eraill, meddylid y rhai sydd yno.
- 7.2 Bu rhyw ogwydd gogleddol-orllewinol i'm meddwl tra bûm yn ystyried y datblygiad hwn. Rhagwelwn ganghennau ym Mangor ac Aberystwyth, gyda Choleg y Drindod a



Choleg Dewi Sant hefyd o bosib yn cyfranogi yn y gweithgarwch. Ond anghyflawn fyddai CFfC heb fod iddo bresenoldeb, hwyr neu hwyrach, yn Abertawe a Chaerdydd.

- 7.3 Gyda chwestiwn yn codi eto ynghylch dyfodol Coleg Dewi Sant, efallai ei bod yn bryd gofyn a fyddai swyddogaeth i'r coleg hwn fel canolfan barhaol i weithgarwch TG, gyda holl aelodau'r CFfC yn bwrw tymor dan ei nenbren.

## 8. Enw, Arwyddair, Arwyddlun, Amcan

- 8.1 Enw. Awgrymais yr enw "Coleg William Salesbury" ddwy flynedd a hanner yn ôl, ac oddi ar hynny nid oes neb wedi awgrymu dim gwahanol. Cyfeiriat y darllynydd at yr hyn a ysgrifennais am Salesbury yn y gyfrol The Welsh Language Today, gol. Meic Stephens, yr ail argraffiad (1979), tt.287-91. Salesbury, yn bendifaddau, yw rhif 2 yn nhabl "Cymry'r Filrif". Dyma'r drefn:

1. William Morgan - am gwblhau'r dasg.
2. William Salesbury - am ddiffinio'r dasg a'i gosod mewn cyd-destun diwylliannol.
3. Griffith Jones - am osod seiliau deffroad gwerin.
4. Llywelyn Fawr - am oroesi; llwyddiant mawr Cymru'r Oesoedd Canol.
5. Owain Glyn Dŵr - am gadw'n fyw y syniad o wladwriaeth Gymreig.

- 8.2 Arwyddair. Mae dau o ymadroddion Salesbury mor dda, mae'n anodd dewis rhyngddynt: (a) Oll synnwyr pen Cymro i gyd; (b) Mynnwch ddysg yn ych iaith. Yr ail efallai ... ?

- 8.3 Arwyddlun. Logo ar gyfer safle ar y We: ar y dechrau, pen ac ysgwyddau gŵr mewn gwisg Elizabethaidd, ond yn gwisgo balaclafa. Pam hynny? Am mai CFfC darpariaethol a fyddai. "The Provisionals". Y dydd y cydnabyddir y CFfC a'i gorffori'n nawfed sefydliad y Brifysgol, gall y balaclafa ddod i ffwrdd a datgelu W.S. gyda golau'r Dadeni yn ei lygaid.

- 8.4 Amcan neu amcanion. Mewn oes o "ddatganiadau cenhadaeth" nad ydynt yn golygu fawr o ddim, yr wyf yn ffafrio rhywbeth syml a phendant. Efallai y byddai (1) yn ddigon:

Gwella'r ddarpariaeth trwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru [? yng ngholegau'r sector uwch yng Nghymru] o ran swm ac ansawdd.

Efallai fod dadl dros ail amcan (2):

Gweithio tuag at sicrhau fod dysgu pob pwnc trwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru [? yng ngholegau'r sector uwch yng Nghymru].

Gwerth yr ail amod "galetach" hon yw y byddai'n didoli peth ar y defaid a'r geifr, ac yn peri i'r gwamal a'r gwangalon feddwl ddwywaith cyn ymuno.

## 9. Y Gobaith Mawr

Am dair blynedd bûm yn ceisio ysgogi trafodaeth ar y pwnc hwn. Mawr obeithiaf y bydd adroddiad y Pwyllgor Addysg Uwch ar ddiwedd yr Arolwg yn cynnwys argymhellion pendant ar gynnwys Coleg Cymraeg Ffederal o fewn trefn Prifysgol Cymru, ac ar ei gyllido.

*[Cyflwynwyd i sylw Cynog Dafis AC, Cadeirydd y Pwyllgor, 29.1.01.]*

## Atodiad 1

### PROBLEM PRIFYSGOL

#### I.

Egwyddor wael i seilio buchedd arni yw "Cilwg yn ôl", ond ambell dro gall ei bod yn angenrheidiol cilwgu peth yn ôl cyn cerdded peth ymlaen.

Wedi 30 mlynedd a mwy ar staff Coleg y Gogledd, a dim llawer llai na 40 mlynedd o gysylltiad â'r Coleg ac â'r Brifysgol, siom, rhwystredigaeth a chwerwder sy'n llenwi fy meddwl wrth edrych yn ôl ar hanes Dysgu Trwy'r Gymraeg.

Pan ymunais â'r staff ym Mangor ganol y chwedegau yr oeddwn i, a thybiaf fod eraill yr un fath a mi, yn rhyw gymryd ac yn rhyw ddisgwyl y byddai pethau'n gwella gydag amser. Nid yw pethau wedi gwella. Maen nhw wedi dirywio.

Popeth a enillwyd ym Mangor, fe'i henillwyd er gwaethaf - ac yn rhannol oherwydd - gwrthwynebiad y diweddar Syr Charles Evans. Oddi ar 1985, a "Nixon ddim yma i'w gicio ddim mwy", nid enillwyd DIM.

Heriaf unrhyw un i brofi ei bod hi damaid gwell yn Aberystwyth .

Yn y flwyddyn 1958 gwnaed y penodiad cyntaf o fewn y Brifysgol wedi ei ddynodi'n arbennig ar gyfer DTG; dyma hefyd pryd y mabwysiadwyd y polisi o grynhoi DTG yn Aberystwyth a Bangor. Ar ôl 40 mlynedd fe ddylai fod yn bosibl gwneud gradd anrhydedd TG YM MHOB PWNC YN Y DDAU GOLEG HYN O LEIAF. 'Does dim math o arwydd bod neb yn unman hyd yn oed yn dechrau meddwl am hynny. Truenus, pathetig ac affwysol.

Ar droad milrif, dylem feddwl eto am strategaeth a chynllun eofn a'n cyfyd o'r gwarth a'r trueni hwn. Ond cofier, pa gynllun bynnag a ddyfeisiwn, a pha mor galed bynnag yr ymdrechir, fe erys y BROBLEM yr wyf yn cyfeirio ati yn Adran II: problem ganolog y Brifysgol, sydd hefyd yn broblem ein cymdeithas yng Nghymru.

Rhaid sefydlu Coleg Cymraeg. Dylai hwnnw fod yn sefydliad ffederal, amlganghennog, yn gorgyffwrdd â dau, tri neu ragor o'r colegau daearyddol yn y Brifysgol.

Bu trafod ysbeidiol ar Goleg Cymraeg oddi ar 1951, pan dderbyniodd Llys y Brifysgol gynnig y dylid archwilio ffyrdd o sefydlu un. Bob tro y trafodwyd y peth wedyn, codai'r cwestiwn "Ym mhle?".

Wrth grynhoi DTG mewn un fangre ddaearyddol byddid yn amddifadu'r Cymro Cymraeg o DDEWIS, a chanlyniad hynny fyddai dwysáu, yn hytrach na datrys, y wir BROBLEM yr wyf yn cyfeirio ati yn Adran II. Un o gryfderau traddodiadol Prifysgol Cymru yw bod ei cholegau mor amrywiol ac mor wahanol i'w gilydd, gwahanol o ran cymeriad a thraddodiad, gwahanol yn bensaernïol, a gwahanol o ran eu perthynas â'r dref a'r gymdeithas yn y fan a'r lle. Dylai'r myfyriwr o Gymro sydd am ddilyn cyrsiau TG o hyd gael y dewis.

Dylai'r Brifysgol yn ganolog sefydlu Coleg Cymraeg. Galwer ef am y tro yn "Goleg y Tatws Llaeth" - efallai y daw enw gwell. Byddai'r myfyrwyr, yn ôl eu dewis, yn aelodau o "GTLI Bangor", "CTLI Caerdydd", "CTLI Aberystwyth" &c &c, ac yn aelodau o golegau daearyddol y Brifysgol yn yr unrhyw fannau yr un pryd. Amod aelodaeth o GTLI fyddai gwneud lleiafswm o fodiwlau TG. Dylai CTLI fod yn nawfed sefydliad cyfansoddol y Brifysgol. Dylai fod iddo'i Senedd a'i Gyngor. Dylai fod iddo Ddirprwy Is-ganghellor, a gaiff ei dwrn i fod yn Is-ganghellor y Brifysgol. Dylai darlithwyr yn y colegau presennol sy'n dysgu lleiafswm o oriau TG yn y flwyddyn fod yn aelodau ohono, a dylai fod hefyd aelodau ychwanegol, wedi eu penodi'n uniongyrchol i GTLI o'i gyllid ei hun, ac wedi eu lleoli mewn rhai o'r colegau daearyddol trwy gytundeb â Chynghorau'r colegau hynny yn y fan a'r lle. Ei waith fyddai helaethu'n ddirfawr ac mewn byr amser y ddarpariaeth DTG, drwy drefnu cyfnewid darlithwyr a thrwy ddefnydd cyson o'r cyswllt fideo. Dylai modiwlau TG CTLI gael eu derbyn, wedi trafodaeth a thrwy gytundeb, fel rhannau o'r cyrsiau gradd o fewn y colegau daearyddol.

Ni welaf ffordd arall ymlaen. Yn y cyfamser, erys y BROBLEM. Ofer fydd pob taer ymgais a phob dyfais newydd onid eir at wraidd y broblem hon. Yn wir, heb yn gyntaf wynebu'r broblem hon, nid yw'n werth trafferthu o gwbl. Yn awr darllenwch Adran II, a darllenwch hefyd fy nhair ysgrif yn:

Llais Llyfrau, Hydref 1997, t. 12.

Taliesin, Gaeaf 1997, t. 50.

Llais Llyfrau, Gwanwyn 1998, t. 10.

## II.

Gŵyr pawb a fu'n dygnu arni gyda DTG yn y Brifysgol dros y 40 mlynedd diwethaf am dorcalon yr ymateb gwan a'r niferoedd bychain. Dyna'r rhwystr mwyaf un. Ni ddylai maint yr ymateb newid yr egwyddor: dylai addysg TG fod ar gael i bwy bynnag a'i myn, petai hwnnw'n ddim ond un. Ond eto mae'n anodd sobor mynd i hwyl gyda chynulleidfaoedd tila. Y tu ôl i'r cyfan y mae PROBLEM Y BRIFYSGOL, sy'n broblem y bobl a'r genedl hefyd.

Ddiwedd Medi bob blwyddyn fe ddaw WYTHNOS Y GWAEDU MAWR. Bydd y Papurau Bro yn llawn negeseuon yn dymuno'n dda i hwn-a-hwn ac i hon-a-hon sydd wedi cwblhau cwrs yn Ysgol Cwm neu Ddyffryn Rhywbeth-neu-'i-gilydd gyda chanlyniadau clodwiw, ac sydd bellach yn ymadael astudio am radd yn ... Nottingham, Lerpwl, Birmingham, Bryste, Llundain, Glasgow, Exeter, Sheffield, Southampton, Keele, Dundee, Leeds, Caerefrog, Durham, Caerhirfryn, Caergaint ... pob man yn y Deyrnas ond yr hen Brifysgol Cymru. Peidiwn â'n twyllo'n hunain. Welwn ni mohony'n nhw eto, gydag eithriad.

'Rydym yn hen gyfarwydd â'r egwyddor: pethau blant yw Cymru, Cymraeg, Cymreictod, a daw adeg eu rhoi heibio, gyda phethau bachgennaidd eraill. Yn nechrau eu dyddiau, fe bowliwyd llawer o'r plant hyn yn eu coetshus-cadeiriau drwy fwd yr Eisteddfod.

Fe'u magwyd ar Rala Rwdins, T. Llew Jones, Urdd, Ysgol Feithrin, Ysgol Ddwyeithog, Sbondonics, Capel, Ysgol Glanaethwy. Ac wedyn, yn ddeunaw oed - ffarwél. Dyma egwyddor bywyd y dosbarth hwnnw o Gymry sy'n gymdeithasol-symudol, y dosbarth sydd wedi cefnu ar y gaib a'r rhaw, neu sydd yn y broses o wneud hynny. Mae ei fys yn barhaol ar y botwm hunanddministr. Mae'n credu ei fod y gwybod beth sydd orau i'w blant fel unigolion: gall fod yn iawn neu beidio. Yr hyn sy'n sicr yw ei fod ar ei ffordd i ddifancoll fel dosbarth.

Mor aml, dyma'r patrwm dros bedair cenhedlaeth. 1. Taid: y tyddyn, y ffas neu'r chwarel, "Prifysgol Fawr Bywyd" ys dywedir. 2. Tad: yr hen Brifysgol Cymru. 3. Mab: prifysgol yn Lloegr. 4. Wyr: Prifysgol Dyn-a-wyr Ble - y dewis mwyaf addas fyddai Atlanta, Georgia, oherwydd arwyddair yr hen deulu erbyn hyn yw "Gone with the Wind".

"Mae'n dda iddyn nhw fynd," meddai athrawon, prifathrawon, rhieni. "Gorwelion ... profiad ... ehangder" &c &c. Nid fy lle i yw dadlau yn erbyn hyn. Nid lle neb ohonom yw dadlau ynghylch cymhellion unigolion. Mae gan bob un ohonom ryw gath yn ei gwprdd. "Ni wŷyr neb ohonom," chwedl W.J. Gruffydd, "ym mha adfydus fodd y cyferfydd â'i ddiwedd". Bychan iawn o reolaeth sydd gennym fel rhieni ar ddewisiadau ein plant, ac os yw'r rhiant o Gymro'n hapus yn anfon ei siec bob dechrau tymor i Newcastle Upon Tyne, y mae ganddo berffaith hawl. Nid oes raid i Gymro bara'n Gymro. Mae'n berffaith rydd i droi'n Sais. Ac mae rhywfaint o "isio bod yn Sais" yng ngwneuthuriad pob Cymro, i beth yr awn i wadu?

Fel unigolion, dywedaf eto, nid yw'n fusnes i neb ohonom ddweud beth sy'n dda i unigolyn arall. Ond, fel aelodau ohoni, a llawer ohonom yn raddedigion ynddi, ac felly dan siars i warchod yn barhaol ei llwydd a'i hanrhydedd, y mae'n fusnes inni ystyried beth sy'n dda i Brifysgol Cymru. Myfyrwyr sy'n gwneud prifysgol. A oes rhywun yma am sefyll a dadlau fod colli goreuon ein pobl ifainc, mewn blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, yn dda i'n Prifysgol ac i'w cholegau?

"Adref, adref, blant afradlon" oedd pennawd apêl Alwyn D. Rees yn y chwe-degau. Heddiw, ni byddai fawr neb dan ddeugain yn adnabod y cyfeiriad nac yn gallu rhoi'r llinell nesaf. Nid enillir fawr ddim bellach drwy apelio at galon a chydwybod. Nid yw cyhoeddusrwydd y coleg unigol chwaith - boed dda, boed wael - yn mynd i gyfrif fawr ddim. Nid enillir y frwydr hon drwy gynhyrchu llawlyfrau mwy llathraidd neu gyflwyniadau fideo mwy bachog. Problem seico-gymdeithasegol ddofn sydd yma, neu - a'i roi mewn termau mwy lleygol - nyten fawr yn rhydd.

Tasg i'r egin-wladwriaeth Gymreig a dyf o gwmpas y Cynulliad, os sefydlir ef, fydd mynd at wreiddyn y broblem hon. Fe wna hynny - fe fydd yn rhaid iddi - os bydd am ei chadarnhau a'i chryfhau ei hun fel egin-wladwriaeth a thyfu'n rhywbeth amgenach. Ni wyddom eto beth fydd perthynas y Brifysgol a'r Cynulliad; ni wyddom a fydd perthynas o gwbl ar y cychwyn. Ond fe ddylem fod yn dechrau meddwl yn awr am drefn newydd o gynnal ac ariannu addysg brifysgol o dan lywodraeth Gymreig. Dylai llywodraeth y Cymry ei gwneud hi'n bosibl, ryw fodd neu'i gilydd, i Brifysgol Cymru allu cynnig telerau arbennig o ffafriol i bob un sydd wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru ac sydd yn awyddus astudio am radd ynddi ac sydd â'r cymwysterau priodol. Nid am delerau academiaidd ffafriol yr ydym yn sôn, gobeithio fod pawb yn deall hynny. Yn academiaidd, nid gostwng y rhesel sydd eisiau ond ei godi. Dylai pob efrydydd o Gymro, Cymraeg a di-Gymraeg, am ei fod yn Gymro, gael cynnig ei addysg ym Mhrifysgol Cymru am bris manteisiol iawn, heb brawf

moddion na sôn am dalu'n ôl, pris a wna iddo ystyried efallai fod hen brifysgol ei dad neu ei fam yn werth meddwl amdani wedi'r cyfan. Dylid gwneud hyn yn gwbl agored, fel ymgais i dorri'r drwgarferiad ac i adeiladu cymdeithas gref, amrywiol a diddorol o Gymry yn y Brifysgol a fwriadwyd ar eu cyfer. Rhodder cynnig i ddechrau ar gyfnod prawf o bum mlynedd. Yna pum mlynedd arall.

Byddai'r Saeson ar staff y Colegau yn gynddeiriog. Ond nid mater iddyn nhw yw hyn. Mater yn hytrach Lywodraeth y Cymry.

Ein hangen erioed fel pobl yw dosbarth llywodraethol brodorol, sefydlog, hunanbarhaol. Boed inni wynebu mai hon yw problem ganolog Cymru heddiw.

Boed i lywodraeth Gymreig, ar y cyfle cyntaf posibl, gymryd camau eofn, agored a phenderfynol i'w datrys. Mae gennym ni, aelodau a graddedigion y Brifysgol, hawl a dyletswydd i ddechrau meddwl pa gamau a ddylai'r rheini fod.

[Ar ddiwedd y gynhadledd, trafodwyd a phasiwyd y cynnig a ddyfynnir ym mhapur 4.]

*[Papur a gyflwynwyd i'r gynhadledd Y GYMRAEG 16+, Bangor 23 Ionawr 1998; cyhoeddwyd yn Y Traethodydd, Ebrill 1998, t. 71.]*

## Atodiad 2

### COLEG FFEDERAL CYMRAEG YM MHRIFYSGOL CYMRU

#### 1. Y CYNNIG A'R CEFNDIR

- 1.1 Pan ofynnir y cwestiwn: "Ar ba brifysgolion yn y byd y mae rhwymedigaeth, dyletswydd neu resymol ddisgwyliad i ddysgu eu pynciau trwy'r Gymraeg?" ni ellir enwi ond dwy: Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru. Mae a wnelo'r papur hwn yn llwyr â'r ail.
- 1.2 Ar ddiwedd y gynhadledd Y GYMRAEG 16+ - Y FFORDD YMLAEN, a gynhaliwyd ym Mangor 23 Ionawr 1998, pasiwyd y cynnig hwn yn unfrydol, wedi ei lunio gennyf i a'i gynnig gan y Dr. Geraint Wyn Jones:

Fod y Gynhadledd hon yn gofyn i Fwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg Prifysgol Cymru, drwy ymgynghoriad â'r Gyfadran Astudiaethau trwy'r Gymraeg yn Aberystwyth, â'r Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg ym Mangor, ac ag unigolion yn holl Golegau Prifysgol Cymru, lunio cynllun ar gyfer Coleg Cymraeg ffederal o fewn y Brifysgol ffederal, i'w gyflwyno i Gyngor a Llys y Brifysgol.

Mae'n debyg y bydd aelodau'r Bwrdd hefyd wedi gweld y papur PROBLEM PRIFYSGOL, a gyflwynais i esbonio cefndir y cynnig. Bellach y mae'r papur wedi ei gyhoeddi'n gyfan yn Y Traethodydd, Ebrill 1998. Bu peth trafodaeth gyhoeddus hefyd yn y cyfamser.

- 1.3 I'n hatgoffa'n hunain yn fyr iawn. Ym 1951 y pasiodd Llys y Brifysgol, ar gynnig y Dr. Gwynfor Evans, y dylid archwilio ffyrdd o sefydlu Coleg Cymraeg. Aeth saith mlynedd heibio cyn y gwnaed y penodiad cyntaf wedi ei ddynodi ar gyfer DTG. O hynny hyd ganol yr wyth-degau, gwnaed rhyw un penodiad yma a rhyw un acw, gan gynyddu'r nifer yn araf a phetrus iawn. Faint o ddarlithwyr sydd yn y Brifysgol erbyn hyn? Dim llawer llai na phum mil. A faint sydd, yn swyddogol, yn dysgu trwy'r Gymraeg? Yr ateb (wedi anwybyddu'r Adrannau Cymraeg, a chan beidio â chynnwys y gwŷr a'r gwragedd sy'n DTG yn wirfoddol) yw dim llawer mwy na dau ddwsin. Cyfyngir DTG o hyd i ryw gnewyllyn bach o bynciau diogel, gyda rhai o'r craidd-bynciau academaidd o hyd heb eu cyffwrdd. Nid ydym yn symud ymlaen ddim, dyna'r gwir.

- 1.4 Y mae'n bryd inni i gyd gyfaddef fod y drefn bresennol yn fethiant llwyr. Trefn ydyw sy'n dibynnu ar frwdfrydedd ac ewyllys da penaethiaid adrannau yn y Colegau unigol. Ni ddywedaf ddim am eu hewyllys da, ond gellir crynhoi swm eu brwdfrydedd yn y gair DIM. Dyma'r byd yr ydym yn byw ynddo. Ychydig, o hyd, y gallwn ei wneud i'w newid. Ond yn y man, drwy'r Cynulliad, dylai rhywrai ymorol am ei newid o'i gwr. Rhaid newid dull cyllido'r Brifysgol a holl amodau ei bodolaeth, a thasg i lywodraeth Gymreig ydyw hyn.
- 1.5 Yn y cyfamser, dylai'r Bwrdd DTG hyrwyddo a chefnogi sefydlu Coleg Cymraeg.

## 2. TRI MATH O GOLEG

2.1 Mewn egwyddor, gall "Coleg Cymraeg" fod yn un o dri math:

- (a) Coleg neu brifysgol yn llwyr ar wahân i'r Brifysgol, capel sblit go-iawn. Cystal cyfaddef y bu rhyw ychydig ohonom, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, yn troi rhyw syniad fel hyn yn ein meddyliau o dro i dro.
- (b) Un o'r colegau daearyddol wedi ei neilltuo i'r pwrpas. Byddai rhywfaint o ddadl dros hyn petai un o'r colegau ymhell ar y blaen o ran ei ddarpariaeth, ond nid oes yr un.
- (c) Coleg ffederal, yn gorgyffwrdd â dau neu ragor o'r colegau daearyddol. Dyma'r dewis y gofynnir i'r Bwrdd yn awr ei ystyried, yn ôl y cynnig a basiodd cynhadledd 23 Ionawr. Y ddadl o'i blaid - ac mae'n un gref iawn - yw y byddai'n dal i gynnig DEWIS i'r Cymro. Cyfynger ar y dewis hwnnw, drwy fabwysiadu opsiwn (a) neu opsiwn (b) uchod, a'r canlyniad fyddai dwysáu'r BROBLEM ganolog a amlinellais yn fy mhapur cyntaf.

## 3. BETH YW COLEG?

- 3.1 Ddiwrnod y Gynhadledd ym Mangor, a thro neu ddau wedyn, clywais ddweud mai'r hyn oedd gennyf mewn golwg oedd "Coleg Digidol". Gallaf sicrhau aelodau'r Bwrdd o un peth: y diwrnod yr oeddwn yn ysgrifennu'r papur, nid oeddwn wedi clywed yr ymadrodd "Coleg Digidol". Clywais ef o fewn diwrnod neu ddau, ac erbyn hyn mae gennyf ryw syniad beth ydyw. Ond nid yw hynny wedi newid fy syniad am yr hyn yw coleg.
- 3.2 Cymdeithas yw coleg. Casgliad o bobl. Nid yw datblygiadau technolegol yn mynd 1 newid hyn y mymryn lleiaf, er clyfred yw rhai o'r rheini ac mor briodol yw eu defnyddio. Efallai y byddai'n beth da inni ein hatgoffa'n hunain i ba bwrpas, yn gyntaf oll, y sicrhawyd y cyswllt fideo rhwng colegau'r Brifysgol ryw ddeng mlynedd yn ôl: i hwyluso DTG. 'Rwy'n credu fy mod yn iawn, na wnaed DIM defnydd ohono, hyd yma, i'r pwrpas hwn, er iddo fod yn ddigon defnyddiol at bwrpasau eraill. Nid yw'r moddion technegol yn ddim heb y BOBL, y DREFNIADAETH a'r WELEDIGAETH.



#### 4. BETH YW MAINT COLEG?

- 4.1 Maint y coleg lleiaf ym Mhrifysgol Cymru, h.y. nifer ei staff dysgu, yw tua chant. A oes rhywun am ddadlau y dylai Coleg Cymraeg fod yn llai?
- 4.2 Dylid, yn gyntaf, ffurfio Coleg Cymraeg o tua 200-250 o ddarlithwyr. Ni ddylid rhoi siarter iddo, na'i lansio'n ffurfiol, na hysbysebu'r un o'i gyrsiau, nes bydd rhyw nifer fel hyn wedi ei gyrraedd.
- 4.3 Dylid pennu dyddiad i geisio cyrraedd y nifer hwn, dyweder ymhen pum mlynedd.
- 4.4 Dylai'r 200+ gael eu rhannu, ar y dechrau, yn weddol gyfartal rhwng colegau Bangor ac Aberystwyth; dylent fod yn barod i wasanaethu'r ddau goleg daearyddol drwy ymweliadau a thrwy ddefnyddio'r cyswllt fideo'n rheolaidd; dylent hefyd fod yn barod i wasanaethu'r colegau daearyddol eraill a'r Brifysgol drwyddi draw. Yr ydym yn sôn am GOLEG FFEDERAL MEWN PRIFYSGOL FFEDERAL.

#### 5. ENW

- 5.1 Bydd eisiau enw arno. Daeth yr enw "Coleg y Tatws Llaeth" i'm pen mewn fflach o weledigaeth. Wrth edrych yn ôl arno'n sobor, gwelaf enw mor dda ydyw, a drwg gennyf glywed nad yw rhai o aelodau'r Bwrdd yn ei hoffi. Y mae'n fodd i'n hatgoffa o ble rydym i gyd wedi dod. Gwraidd y BROBLEM y cyfeiriais ati yn fy mhapur cyntaf, y "gwaedu mawr" bob mis Medi, yw ymgodi'n gymdeithasol yn rhy gyflym. Yr oedd yr hen Brifysgol Cymru'n ddigon da i'r tadau a'r mamau, ond nid yw'n ddigon da i'r plant. Nid wyf am ymhelaethu yma ar y broblem hon: ond bydded inni ei chydabod fel ein problem fwyaf fel pobl a chymdeithas heddiw. Byddwn yn croesawu rhyw arwydd fod rhai uwch na mi yn y Brifysgol yn cydnabod ei phwysigrwydd ac yn chwilio am ateb iddi. Yr wyf wedi cynnig ateb iddi, ateb y bydd raid i lywodraeth Gymreig ystyried ei weithredu: bod y Brifysgol, drwy gefnogaeth llywodraeth Cymru, yn cynnig andros o fargen ariannol i'r Cymry sy'n dewis astudio yng ngholegau Cymru. Dyma ateb cyffredinol, amheronol, sy'n mynd heibio i bob dadl ynglŷn â chymhellion unigolion. Cyn ei droi heibio, meddylied aelodau'r Bwrdd, a phawb yr un modd, am ateb gwell.
- 5.2 Efallai y teimlwn, yn y man, angen am enw mwy syber na "Choleg y Tatws Llaeth". Down at hyn eto. Yn y cyfamser daliwn i'w ddefnyddio (CTLI).

#### 6. FFURFIO'R COLEG

- 6.1 Y cam cyntaf yw ffurfio CTLI Darpariaethol, sef cymdeithas o bobl a all ddod at ei gilydd ymhen (dyweder) pum mlynedd i ffurfio'r Coleg OS bydd dwy amod erbyn hynny wedi eu gwireddu: (a) bod modd i'w ariannu; (b) bod y BROBLEM wedi ei datrys i ryw raddau, a'r drwgarferiad wedi ei dorri, a'r Cymry'n dechrau aros gartref.
- 6.2 Cyfraniad y Bwrdd tuag at ffurfio'r Coleg Darpariaethol fyddai: Penodi CYNULLYDD, a chydag ef BWYLLGOR CYNNULL bychan bach (dyweder pedwar, yn cynrychioli gwahanol golegau daearyddol ac wedi eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng y

Gwyddorau a'r Celfyddydau). Y Cynullydd a'r Pwyllgor Cynnull i weithredu'n wirfoddol, gan dderbyn eu treuliau yn ôl y graddfeydd arferol.

- 6.3 Gwaith y Cynullydd a'i Bwyllgor fyddai sefydlu cnewyllyn CTLI, ac yna adeiladu o gwmpas y cnewyllyn, drwy ddod o hyd i unigolion a fyddai â diddordeb (ni ellid gofyn dim mwy) mewn bod yn aelodau o'r Coleg pan ddeuai i fod yn ffurfiol. Gwneid hyn drwy hysbysebu, drwy'r rhwydweithiau cyfrifiadurol, a thrwy ymholiadau personol.
- 6.4 Yr wyf yn fodlon credu fod yna rai pynciau a rhai meysydd tra arbenigol nad oes unrhyw Gymro Cymraeg yn unman yn y byd yn gweithio ynddynt. Ond ni choeliaf nad oes yna DDEG o bobl, rywle yn y Deyrnas neu yn y byd, a allai ddysgu, er enghraifft, Mathemateg hyd at safon prifysgol drwy'r Gymraeg; a'r un modd Botaneg, Swoleg, Ffiseg, Cemeg, Biocemeg, Electroneg, Daearyddiaeth, Ieithoedd Modern, Economeg, Seicoleg, Ieithyddiaeth - y craidd-bynciau academaidd na wnaethpwyd, hyd yma, yr un osgo i'w dysgu TG. Gwaith y Cynullydd a'r Pwyllgor fyddai dod o hyd i'r bobl hyn, o blith:
- Myfyrwyr sydd newydd raddio a graddau uchel;
- Myfyrwyr heb raddio ond a record dda eisoes;
- Rhai mewn proffesiynau eraill, ond a chanddynt raddau uchel ac a fyddai'n fodlon ymgymhwyso gyflawni gwaith prifysgol.
- 6.5 Dylid dal ar gyfleoedd i bontio rhwng pynciau a chreu cyfuniadau rhyng-golegol a rhyng-bynciol newydd. E.e. dylid cynnig Ieithoedd Modern fel pwnc, gan ddwyn ynghyd o leiaf dair iaith o blith rhai fel Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg ac Eidaleg. Efallai ei bod yn bryd inni ddechrau dysgu Llenyddiaeth fel pwnc, gan groesi ffiniau ieithyddol. Mae adnoddau y gellid ystyried eu cyfuno gan Ddrama (Aberystwyth) a Llên y Cyfryngau a Chyfathrebu (Bangor). Onid oes rhyw gyfuniad yn bosibl rhwng Cymdeithaseg (Bangor) a Gwleidyddiaeth (Aberystwyth)? Ac oni dylid meddwl am adfer rhyw gymaint o Athroniaeth fel rhan o gyfuniad felly?
- 6.6 Dylid meddwl am gyrsiau M.A. ac M.Sc. hyfforddedig TG yn ogystal â chysiau gradd gyntaf. Gallai rhai o'r rhain fod yn foddion i ddenu'n ôl i Brifysgol Cymru fyfyrwyr sydd wedi gwneud eu graddau dechreuol mewn prifysgolion eraill.
- 6.7 Byddai'r Coleg Darpariaethol yn tyfu o dipyn i beth, yn gymdeithas o bobl â dealltwriaeth rhyngddynt, dim mwy. Byddai rhai'n tynnu'n ôl oherwydd y byddai ganddynt ymrwymadau eraill. Ond dylid parhau i gynnal y nifer tua 'r 200.

## 7. YN Y MAN ...

- 7.1 A bod popeth arall yn cyd-daro, pan ddô'r amser fe gorfforid y Coleg yn ffurfiol drwy siarter, yn nawfed sefydliad y Brifysgol. Fe ffurfid canghennau ohono mewn o leiaf ddau o'r colegau daearyddol (CTLI Aberystwyth, CTLI Bangor &c). A byddai'n dechrau ar ei waith.

- 7.2 Cymerir y byddai'r rhai a fyddai eisoes yn aelodau o staffiau'r colegau daearyddol, ac a fyddai'n dysgu hyn-a-hyn o fodiwlau TG (boed hynny un ai'n ffurfiol neu'n wirfoddol), yn dod yn aelodau o GTLI ym mhen y 200+.
- 7.3 Gallai canghennau CTLI ym Mangor ac Aberystwyth wedyn gymryd lle'r Ysgol a'r Gyfadran DTG yn y lleoedd hynny, a gallai'r coleg ffederal gymryd lle'r Bwrdd.
- 7.4 Byddai aelodau CTLI yn ddau beth ar yr un pryd: (a) yn Gymrodyr o GTLI, (b) yn aelodau o staffiau'r colegau daearyddol. Byddai pob myfyriwr sy'n dilyn hyn-a-hyn o fodiwlau TG (y nifer i'w bennu) yn aelod o GTLI yn ogystal ag o'i goleg daearyddol, ac ni fyddai'n wahanol i unrhyw fyfyriwr arall yn ei goleg daearyddol ac eithrio'i fod yn gwneud hyn-a-hyn o fodiwlau TG. Byddai holl fywyd academaidd a chymdeithasol ei goleg daearyddol ar gael iddo yr un fath yn union - yn cynnwys y bywyd Saesneg.
- 7.5 Erbyn hynny byddai'n briodol i'r Pwyllgor Cynnull syrthio ymaith fel roced wedi gwneud ei gwaith, ac i GTLI fod yn gyfrifol am ei lywodraeth ei hun, gyda'i swyddogion ei hun - Dirprwy Is-ganghellor, Cofrestrydd a pha rai bynnag a fernid yn angenrheidiol gan yr aelodau mewn cydymgyngoriad â chyrrff y Brifysgol.
- 7.6 I'w hystyried ymhellach byddai pynciau fel:
- 7.61 Lle CTLI o fewn gweinyddiad a llywodraeth y Brifysgol, e.e. y priodoldeb fod Dirprwy Is-ganghellor CTLI yn cael ei dwrn fel Is-ganghellor y Brifysgol.
- 7.62 Llywodraeth CTLI ei hun: a fyddai arno angen Llys a Chyngor? Ai ynteu digon fyddai iddo fod yn gymdeithas o Gymrodyr, yn atebol i Lys a Chyngor y Brifysgol?
- 7.63 Y priodoldeb o greu cadeiriau o fewn CTLI, a fyddai'n bethau gwahanol i gadeiriau o fewn y colegau daearyddol (y cynsail i hyn yw'r cadeiriau o fewn y Cyfadrannau Diwinyddol).

## 8. YR ENW ETO

- 8.1 Er cystal yw'r enw Coleg y Tatws Llaeth, fe ellid ystyried posibilïadau eraill. Digon addas, er enghraifft, fyddai enwi'r coleg ffederal Cymraeg ar ol un o gymwynaswyr yr iaith - rhywun o'r gynghrair honno sy'n cynnwys William Morgan, Griffith Jones, Lewis Morris, O.M. Edwards, Emrys ap Iwan. A dod at y pwynt, 'rwy'n credu y dylid ei enwi ar ôl y dyn a gychwynnodd y cyfan: William Salesbury. Pobl ddwad oedd ei deulu, ryw dro, a daethant yn Gymryr gwiw. Dyma enw a ddylai blesio pawb sy'n ffafrio "gwladgarwch dinasyddol" yn fwy na "gwladgarwch ethnig": mae ei fywyd a'i waith yn hysbyseb i allu'r diwylliant Cymraeg i ddenu pobl ato ac ennyn eu teyrngarwch. Salesbury oedd seren fore'r Dadeni Dysg yng Nghymru, a'r dydd y byddwn wedi gwireddu'r rhaglen ddiwylluannol a amlinellodd ef yn 1547, byddwn wedi cyrraedd i rywle. Hanfodion y rhaglen honno oedd: dwyn gorau'r byd Gymru, dwyn gorau Cymru i sylw'r byd, a harneisio'r dechnoleg ddiweddaraf (argraffu, bryd hynny) wasanaeth y Gymraeg. Rhoddai teitl ei lyfr cyntaf arwyddair addas i'r Coleg: Holl Synnwyr Pen Cymro Gyd; ond nid llai addas ei anogaeth yn rhagymadrodd y llyfr hwnnw: Mynnwch Ddysg yn ych Iaith.

- 8.2 Byddai "Coleg William Salesbury" yn enw priodol ar goleg ffederal Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru. Ond ni ddylid gwastraffu enw fel hwn ar ddim byd tlla. Hyd yn hyn, byddai "Sioe Bin", "Dad's Army" neu "Syrkas Fred Karno" yn enw mwy addas arnom ni a'n hymdrechion. Sicrhaer y ddau gant i ddechrau.

*[Papur ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Brifysgol ar Ddysgu trwy'r Gymraeg, 26 Ebrill 1998. Cyhoeddwyd yn Y Traethodydd, Gorffennaf 1998.]*

### Atodiad 3

#### RHAGOR AM Y COLEG FFEDERAL CYMRAEG

"Neu a oes un dyn ohonoch, yr hwn os gofyn  
ei fab iddo fara, a rydd iddo garreg?"

(Mathew 7 9)

#### 1. Gwanwyn arall

- 1.1 Dyma hi unwaith eto'n Hydref, sef Gwanwyn y byd academiaidd, a dyma fy meddyliau innau'n troi, am y trydydd tro eleni, at bwnc mawr y Coleg Ffederal Cymraeg - Coleg y Tatws Llaeth, Coleg William Salesbury, neu beth bynnag y gelwir ef yn y diwedd.
- 1.2 Bydd Bwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg y Brifysgol yn cwrdd eto ar 13 Tachwedd 1998 i ystyried y posibiladau, gan dderbyn adroddiad ac (os wyf wedi deall yn iawn) argymhelliad gan ei Bwyllgor Gweithredol. Mawr hyderaf y bydd penderfyniad y Bwrdd yn un eofn, radical a phellgyrhaeddol, ac yn fodd i sicrhau na wel yr hanner canrif nesaf ailadroddiad o dwyll, gwarth a sgandal "Dysgu trwy'r Gymraeg" fel y bu oddi ar 1950. Hyn a hawlir qan Lwydd ac Anrhydedd ein Prifysgol a'n Gwlad.
- 1.3 Erbyn hyn bydd aelodau'r Bwrdd wedi gweld fy nau bapur blaenorol ar ffurf erthyglau yn Y Faner Newydd a'r Traethodydd, ac wedi darllen hefyd, gobeithio, lith golygyddol grymus yr Athro J.E. Caerwyn Williams ar yr un materion yn Nhraethodydd Gorffennaf 1998. Yn y papur byr hwn, yr wyf am nodi (a) lle 'rwyf wedi newid fy meddwl, a (b) lle nad wyf wedi newid fy meddwl.

## 2. Newid meddwl

2.1 Cyfeiriaf yn arbennig at adran 6.2 o'm hail bapur ("Coleg Ffederal Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru" - 23 Ebrill 1998). Yno awgrymais: "Y Cynullydd a'r Pwyllgor Cynnull i weithredu'n wirfoddol, gan dderbyn eu treuliau yn ôl y graddfeydd arferol". Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn, yr oeddwn wedi anghofio'r gwirionedd mawr fod sefydliadau a chyrrff cyhoeddus yn fwy tebygol o osod gwerth ar beth os ydynt wedi gorfod talu amdano. Credaf bellach y dylai'r Bwrdd sicrhau'r cyllid o'r dechrau i dalu cyflog i Gynullydd (efallai i ryddhau rhywun oddi wrth gyfrifoldebau dysgu), am gyfnod prawf â'i hyd i'w bennu drwy drafodaeth.

2.2 Wrth feddwl am gymwysterau'r Cynullydd, awgrymaf y dylai'r Bwrdd geisio rhywun fel hyn:

- Heb fod yn rhy hen;
- A chymwysterau academiaidd uchel;
- Yn ddelfrydol, â gradd o Brifysgol Cymru, ond gellid ystyried rhywun â gradd prifysgol arall;
- A phrofiad o ddysgu mewn prifysgol, ac yn ddelfrydol rhyw bwnc heblaw'r Gymraeg ei hun;
- A rhestr dda o gyhoeddiadau yn Gymraeg ar ei bwnc.

## 3. Dal o'r un feddwl

3.1 Unwaith yn rhagor yr wyf am atgoffa'r Bwrdd mai am "Goleg Ffederal", nid "Coleg Digidol", y galwodd y gynhadledd ar 23 Ionawr 1998. Pan luniais y penderfyniad a basiwyd yn unfrydol gan y gynhadledd honno, nid oeddwn wedi clywed yr ymadrodd "Coleg Digidol". Erbyn hyn yr wyf yn berffaith barod i feddwl y gall fod gan y ddarpariaeth ddigidol gyfraniad tuag at ddatrys ein problem: ond na fydded i'r Bwrdd, ar boen ei fywyd, ei chymryd hi'n esgus i osgoi penodi pobl. Cymdeithas o bobl yw coleg, nid oes newid ar y ffaith hon. A yw holl Brifysgolion y Deyrnas am fynd yn ddigidol er mwyn ysgafnhau tipyn ar eu biliau cyflogau? A welwn ni "Brifysgol Ddigidol Rhydychen" neu "Brifysgol Ddigidol Caergrawnt"? Yn nes atom, os gwna darpariaeth ddigidol yn lle ... dyweder 200 o ddarlithwyr trwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, a oes fwriad hefyd iddi wneud y tro yn lle 4700 o ddarlithwyr trwy'r Saesneg?

## 4. Stori fach o Fangor

4.1 Eleni fe ymddeolodd dau ddarlithydd o Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Cymru, Bangor, dau a oedd yn abl ddysgu Ffrangeg trwy'r Gymraeg ac wedi gwneud hynny trwy'r blynyddoedd. Hysbysebwyd un swydd. Yn swyddogol, nid yw Bangor yn dysgu Ffrangeg trwy'r Gymraeg, ac nid oedd unrhyw rwymedigaeth ar y Pwyllgor Penodiadau i ddewis Cymro neu Gymraes. Ar y rhestr fer yr oedd dwy ymgeiswraig a chanddynt gymwysterau rhagorol, gyda'r gwahaniaeth fod un yn Gymraes a oedd eisoes wedi cyhoeddi yn Gymraeg ar ei phwnc, a'r llall yn ddi-Gymraeg. Yr ail a aeth â hi, a pheidied neb â dyfynnu'r papur hwn yn dweud bod cam wedi ei wneud. Mae'n ddiamau bod y Panel wedi gweithredu'n briodol, gan ddilyn y canllawiau. Nid swydd trwy'r Gymraeg mohoni. Y pwynt yw hyn: byddai Prifysgol o ddifrif dros gynnal a

helaethu'r ddarpariaeth TG wedi bachu'r Gymraes yn ogystal. "Nid oedd mo'r arian i gael dwy." Nac oedd, ond byddai prifysgol o ddifri dros y Gymraeg wedi ymorol bod arian. Efallai bod ymgeiswyr cymwys am swyddi TG yn brin; ond pan ddaw un o'r bodau prin hynny heibio, nid oes gennym unrhyw fath o drefn i'w benodi. 'Rwy'n deall fod y Gymraes yn awr wedi mynd Nottingham. Dyna fel y mae. Dyma wers inni, rhag ofn bod unrhyw un am honni y gwna Coleg Digidol y tro yn lle Coleg Ffederal. Rhaid wrth gorff canolog - coleg - ac iddo'i gyllid ei hun, i ddarganfod, recriwtio a phenodi gwŷr a gwragedd cymwys i ddysgu trwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Nis penodir fel arall. Nid yw'r ystyriaeth hon yn cyfrif DIM ym meddyliau penaethiaid a byrddau adrannau'r colegau daearyddol. Drwy'r Goleg Cymraeg Ffederal yn unig y daw. Ni byddai Coleg Digidol yn cyffwrdd â'r broblem arbennig hon.

## 5. Beth am y nifer yna?

- 5.1 Efallai na ddylwn fod wedi clywed, ond mi glywais, fod "gwrthwynebiad mawr" gan rai aelodau o'r Bwrdd i'r ffigur o 200 a awgrymais yn fy ail bapur ar ôl gwneud sym gyflym iawn. Gwrthwynebiad ar y tir ei fod yn rhy fychan, gobeithio. A oes unrhyw un am ddweud fod hwn yn nifer rhy fawr, hynny yw, rhy dda i'r Cymry a'r Gymraeg? Mi glywaf (wel, mi glywaf â chlust y dychymyg) yr ymesgusodi a'r pesychu ... "hm, hm ... bod yn ymarferol ... mynd gan bwyll ... ara deg pia hi ...". Frodyr a chwiorydd, yr ydym yn mynd yn ara deg ers 1950. Mor ara deg nes bod y falwen yn hollol sownd a disymud yn y col-tar. Ydi hynny'n ddigon ara deg ichi?
- 5.2 Gwn cystal â neb am yr anawsterau. Mae'n ddigon posib bod ambell bwnc nad oes, ar hyn o bryd, neb yn y byd a all ei ddysgu trwy'r Gymraeg. Mesur o fethiant y Brifysgol yw hynny. Clywais innau, ac o le da, hanes Coleg Aberystwyth yn ddiweddar yn ceisio penodi un darlithydd yn y Gyfraith drwy'r Gymraeg. Neb yn cynnig. Eto, pwy a wŷr na byddai'n haws penodi tîm o chwech, i ddechrau arni gyda'i gilydd, na phenodi un i fod yn belican digefnogaeth mewn hinsawdd gelyniaethus? Dywed rhyw reddf wrthyf mai mewn setiau y ceir gafael ar y bobl iawn, a chyflenwad ohonynt, pan eir ati.

## 6. Cyrsiau gradd ynteu ôl-radd?

- 6.1 Mewn trafodaeth yn Golwg (20 Awst 1998) dyfynnwyd hwn fel opsiwn y mae lle i gredu fod cefnogaeth iddo o fewn y Bwrdd: "ceisio cael y colegau i gynnig cyrsiau ar ddiwedd y cyfnod gradd fyddai'n rhoi pwyslais galwedigaethol ar y Gymraeg, yn arbennig mewn meysydd fel meddygaeth a chyfrifyddiaeth, yn hytrach na cheisio mynnu cyrsiau cyflawn drwy'r Gymraeg." Ie, iawn hyd at ryw bwynt. o safbwynt y gymdeithas y tu allan, ac o ran y gofyn sydd am bobl gymwys a hyderus i weithio drwy'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd, nid yw o gymaint pwys pryd yr enillwyd y cymhwyster, ai yn ystod cwrs gradd ynteu wedyn. Gwelaf, yn sicr, bosibiliadau yma. Eto hyderaf na fydd i'r Bwrdd ystyried hwn yn brif opsiwn a thrwy hynny roi esgus pellach i'r Brifysgol osgoi'r ddyletswydd ganolog a sylfaenol o ddarparu cyrsiau gradd yn y Gymraeg. Darparu'n ACADEMAIDD - meithrin meddylwyr - yw rhwymedigaeth gyntaf prifysgol.

## 7. Ffordd bell

7.1 Wedi ei dderbyn mewn egwyddor gan y Bwrdd, bydd gan y Coleg Ffederal ffordd bell i fynd cyn y bydd yn sylwedd. Gŵyr aelodau'r Bwrdd yn well na mi am y camau, a pha gyrff fydd raid dyfarnu - Llys a Chyngor y Brifysgol, y Bwrdd Academaidd, Llysoedd, Cynghorau a Seneddau'r colegau daearyddol &c &c. Fe ofynnir - a diau fod rhaid gofyn - "Beth a ddywed y Corff Cyllido?" Awgrymaf innau gwestiynau gwahanol: "Beth sy'n mynd ddigwydd i'r Corff Cyllido ei hun dan drefn newydd o lywodraethu Cymru?" neu "Beth a ddylai ddigwydd iddo?"

## 8. Pysgod oer

Eled y Bwrdd ymlaen, heb wyro ar yr aswy law nac ar y dde, i sefydlu yr hyn y gofynnodd y gynhadledd fis Ionawr iddo'i sefydlu: Coleg Ffederal Cymraeg. Y dewis i'w aelodau yw un ai cefnogi'r egwyddor hon yn ddiamwys, neu ynteu ymrestru gyda'r hen bysgod oer a wnaeth eu gorau yn nechrau'r pum degau i sicrhau mai enw arall ar ffars fyddai "Dysgu trwy'r Gymraeg" am gyfnod o hanner canrif yn ein Prifysgol.

*[Cyflwynwyd i Fwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg y Brifysgol 13 Tachwedd 1998; cyhoeddwyd yn Y Traethodydd, Ionawr 1999.]*

## Atodiad 4

### COLEG WILLIAM SALESBURY - CYRCHWN AT Y NOD

Mae'n dda gennyf dderbyn gwahoddiad y golygyddion ddweud gair ymhellach am fater y Coleg Ffederal Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru. Fe edrychwn beth yn ôl a pheth ymlaen.

Efallai y cofia'r darllenwyr mai dechrau'r stori, neu ddechrau'r bennod hon ohoni beth bynnag, fu cynhadledd a gynhaliwyd ym Mangor, ddiwedd Ionawr 1998, ar y testun "Y Gymraeg 16+ - Y Ffordd Ymlaen?". Fe'i trefnwyd dan nawdd tri chorff: Canolfan Bedwyr, Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) a Bwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg Prifysgol Cymru. Ei hamcan oedd wynebu un ffaith anghysurus iawn, a cheisio meddwl beth a ellir ei wneud yn ei chylch, sef tuedd ymhlith disgyblion ysgol i gefnu ar y Gymraeg fel cyfrwng eu haddysg unwaith y mae ganddynt damaid o TGAU, un ai oherwydd diffyg darpariaeth bellach ar eu cyfer neu ynteu oherwydd y peth hwnnw sydd wedi gyrru Cymry ers llawer cenhedlaeth adael y Gymraeg ar ôl fel un o bethau plentyndod. Yr oedd yn gynhadledd ac ynddi groestoriad da, yn cynrychioli colegau'r Brifysgol a cholegau eraill yng Nghymru, ysgolion uwchradd a cholegau trydyddol, awdurdodau lleol a nifer o gyrff eraill, a dyna pam y gwelais ynddi gyfle i gyflwyno'r cynnig hwn:

Fod y Gymhadledd hon yn gofyn i Fwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg Prifysgol Cymru, drwy ymgynghoriad â'r Gyfadran Astudiaethau trwy'r Gymraeg yn Aberystwyth, â'r Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg ym Mangor, ac ag unigolion yn holl golegau Prifysgol Cymru, lunio cynllun ar gyfer Coleg Cymraeg ffederal o fewn Prifysgol Cymru, i'w gyflwyno Gyngor a Llys y Brifysgol.

I gefnogi'r cynnig lluniais y papur "Problem Prifysgol", a argraffwyd wedyn yn y cylchgrawn hwn yn ogystal ag yn Y Traethodydd. Yn sesiwn gloi'r gynhadledd, cynigiwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Dr. Geraint Wyn Jones, ac fe'i pasiwyd heb neb yn erbyn. Drosodd felly at y Bwrdd Dysgu trwy'r Gymraeg.

Ar y dechrau yr oedd ymateb y Bwrdd, yn ôl pob hanes, yn ffatriol a chefnogol. Gallodd y wasg adrodd, yn dilyn cyfarfodydd yn Ebrill a Mehefin, fod y Bwrdd yn cefnogi mewn egwyddor sefydlu coleg ffederal Cymraeg. Dyna'n wir a gadarnheir gan gofnodion cyfarfod Mehefin. Dywedir, mewn cymaint â hynny o eiriau, "cytunwyd â'r syniad o goleg ffederal".

Yn yr un cyfarfod, gofynnwyd i Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd lunio adroddiad i'w gyflwyno erbyn canol Medi i'r Bwrdd cyfan, ac wedyn ei anfon ymlaen at Fwrdd Academiaidd y Brifysgol, Gyngor y Brifysgol a Bwrdd yr Is-ganghellorion.

Ddechrau Hydref [1998] gwelais ddrafft o'r adroddiad, Datblygu'r Ddarpariaeth: Y Ffordd Ymlaen. Efallai na ddylwn fod wedi ei weld, ond cefais ei fenthg gan aelod o'r Bwrdd a oedd ar ddeall, fel finnau, fod gwahoddiad yn sefyll imi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd ganol Tachwedd. (Tynnwyd y gwahoddiad hwnnw'n ôl o fewn wythnos i'r cyfarfod; yr oeddwn innau'n llwyr dderbyn hynny, gan nad wyf yn aelod o'r Bwrdd.)



Darllenais yr adroddiad. Yna'i ailddarllen. Yna glanhau fy sbectol ac ailddarllen eto. Nid yn unig nid oedd yno unrhyw argymhelliad o blaid egwyddor y Coleg Ffederal, ond ni welwn ynddo ychwaith unrhyw arlliw o'r tri gair "Coleg Cymraeg Ffederal" (na "Coleg Ffederal Cymraeg", peth a fyddai wedi gwneud y tro yr un fath yn union). Yr oedd paragraff agoriadol ("Cyflwyniad") yn sôn am gynhadledd Bangor fis Ionawr, beth oedd ei hamcan, pwy ddaeth iddi ac yn y blaen. Ond rywsut neu'i gilydd fe anghofwyd crybwyll yr unig beth o bwys a wnaeth y gynhadledd! Y gymhariaeth a oedd yn ymgynnig i'r meddwl oedd hen ffotograff Sofietaidd gyda llun Trotsi wedi diflannu i rywle dros nos!

'Rwy'n falch o ddweud fod un neu ddau o aelodau'r Bwrdd wedi sylwi ar yr un absenoldeb, ac wedi tynnu sylw ato yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Bwrdd. Mewn drafft a oedd yn barod erbyn Ionawr eleni [1999], y mae Trotsi wedi ailymddangos. Mae'r ddeuair "Coleg Ffederal" i'w gweld deirgwaith ar dudalen gyntaf yr adroddiad, ynghyd â'r datganiad "Derbyniwyd ... y bydd y drafodaeth ar Goleg Ffederal i fod yn gyfrifol am ddysgu drwy'r Gymraeg yn parhau". Ond yn yr un paragraff hefyd gwelwn yr ymadrodd "gweithio y tu mewn i'r fframweithiau presennol", rhybudd go glir inni beidio â disgwyl gweld argymhelliad o blaid Coleg Ffederal ymhlith argymhellion terfynol yr adroddiad. Felly'n wir y cadarnheir pan droir at yr adran olaf.

Ni chredaf fod mod yn gweithredu'n amhriodol bellach wrth ddyfynnu argymhellion yr adroddiad fel y'u ceir yn y drafft terfynol. Fe'u derbyniwyd gan y Bwrdd, yn unfrydol 'rwy'n deall, ac oddi ar hynny eu cymeradwyo gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol, Cyngor y Brifysgol a Bwrdd yr Is-ganghellorion. Dyma bellach sylfaen polisi'r Brifysgol ar Ddysgu trwy'r Gymraeg:

"Mae'r Bwrdd yn annog y Brifysgol:

- (1) i gydnabod bod yr angen yng Nghymru am fyfyrwyr prifysgol a addysgwyd drwy Gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn fwy nad erioed o'r blaen a bod y cyfnod presennol yn cynnig cyfleoedd di-ail i ni gyflenwi'r angen hwnnw;
- (2) i gydnabod bod yn rhaid darganfod ffyrdd newydd o ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth drwy'r Gymraeg, gan gynnwys meysydd academaidd a galwedigaethol;
- (3) i gydnabod yr angen am gynllunio a marchnata canolog mewn cydweithrediad â'r sefydliadau addysg uwch ac i awdurdodi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- (4) i sicrhau parhad cronfa ddatblygu ddigonol, a fydd dan awdurdod y Bwrdd ac a fydd yn atebol i Bwyllgor Gwasanaethau Canolog y Brifysgol, er mwyn diwallu'r angen am brosiectau ymchwil, cynlluniau peilot;
- (5) i gychwyn trafodaethau gyda'r Cyngor Cyllido a chyda sefydliadau perthnasol eraill er mwyn adolygu'r system gyllido a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer rhaglen ddatblygu;
- (6) Mae'r Bwrdd yn annog y Brifysgol i sicrhau mai'r cam cyntaf fydd hwn tuag at sicrhau consortiwm dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyd-gysylltu addysg uwch a datblygiadau addysg trwy gydol oes."

Fe fyddai'n well gen i, a chredaf y byddai'n well bawb, petai'r adroddiad wedi cynnwys argymhelliad clir o blaid Coleg Ffederal Cymraeg fel nod i anelu ato. Cefais gyfle i ddweud fy meddwl ar hyn yn union wedi cyfarfod y Bwrdd ddiwedd Ionawr. Am hynny nid wyf am ymhelaethu llawer, dim ond ateb cwestiwn neu ddau y gallaf ddychmygu'r darllenwyr yn eu gofyn. Am ba beth yr wyf yn cwyno? Onid adferwyd Trostsci? Onid yw'r adroddiad yn cynnwys y geiriau "Coleg Ffederal" dair gwaith, ac yn cofnodi penderfyniad cynhadledd Bangor, ac yn addo y bydd y drafodaeth yn parhau? "Ydyw" yw'r ateb, y tri thro. Ond cael a chael. 'Rwy'n digwydd gwybod y bu ymgais haerllug o fewn y Bwrdd i newid holl gwrs y drafodaeth fel na byddai Coleg Ffederal ar yr agenda o gwbl. Ac fe lwyddodd yr ymgais honno yn yr ystyr nad oes argymhelliad ar ddiwedd yr adroddiad o'i blaid. Gwahoddwyd fi i ystyried tybed na wnâi Consortiwm y tro lawn cystal â Choleg, ac eglurwyd imi mai "Consortiwm" oedd gair mawr y dydd a'r awr pan gyfarfu'r Bwrdd. Gallwn i fod wedi dweud "lawn, gwych, grêt, ardderchog, mi newidia' i fy meddwl"; ond nid fy lle i oedd newid meddwl ar ran pawb a bleidleisiodd dros y gair "Coleg" yng nghynhadledd Bangor flwyddyn ynghynt. Clywais hefyd y rhesymau pam nad oedd "Coleg Ffederal" yn eiriad derbynol yn y diwedd. Gwrthodwyd "Coleg" ar y tir mai "adeilad o frics a mortar yw coleg". Cymdeithas o bobl yw coleg, a dylai pawb sydd mewn cysylltiad â choleg wybod hynny. Gwrthodwyd "ffederal" ar y tir nad yw'r Brifysgol ffederal yn cyfrif llawer erbyn hyn, ac nad yw rhai pobl yn hoffi clywed sôn amdani. Gwn yn iawn o ble daw'r gwrthwynebiad hwn: o'r ddinas a ddywedodd "Na" wrth y Cynulliad, ac a wrthododd wedyn ei gartrefu.

Tipyn o bennog coch yw'r cyfeiriad at "addysg trwy gydol oes". Un o sloganau'r dydd ydyw, ac nid yw'n golygu fawr o ddim. Gan mlynedd yn ôl yr oedd yn golygu rhywbeth, oherwydd yr oedd ein hen deidiau yn eu haddysgu eu hunain am oes fel paratoad ar gyfer byd arall. Mewn byd seciwlar nid oes yr un cymhelliad i ddyn ei addysgu ei hun am oes; ac fel y gŵyr pawb sydd wedi ymwneud â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr neu ag Addysg Barhaol dan nawdd y Brifysgol, lleiafrif bychan bach sydd bellach yn trafferthu â pheth o'r fath. Wrth alw am "addysg Brifysgol trwy'r Gymraeg i'r Cymry", yr ydym yn golygu, yn bennaf a chan mwyaf, addysg yn y, pynciau academaidd traddodiadol, am gyfnod sydd fel arfer yn dair blynedd ac weithiau ychydig yn hwy, i bobl a'r rhan fwyaf ohonynt rhwng deunaw ac un ar hugain oed, i'w cymhwyso yn gyntaf a phennaf nid ar gyfer unrhyw grefft na phroffesiwn arbennig ond ar gyfer aelodaeth o ddosbarth proffesiynol mewn democratiaeth fwrdaes. Gwasanaeth prifysgol i genedl yn y byd modern yw meithrin y dosbarth hwn; methodd Prifysgol Cymru wneud hyn, neu gwrthododd, am resymau y gellir eu holrhain yn ôl i'w chychwyniad. Tasg llywodraeth y Cymry ryw ddydd, drwy ryw offeryn cryfach na'r Cynulliad, fydd ei newid o'i brig i'w bôn.

Fe gaiff y darlennydd ofyn imi yn awr: "Oni weli di ddim byd cadarnhaol yn argymhellion y Bwrdd?" Ac mi gaf innau ateb, "Gwelaf". Cyn belled ag y maent yn mynd, mae'r chwe argymhelliad yn gymeradwy ac yn cyfeirio at anghenion sylfaenol. Mae peth arall cadarnhaol iawn i'w adrodd, ac efallai y bydd wedi dod yn gyhoeddus cyn yr ymddengys yr ysgrif hon. Yng nghorff yr adroddiad y mae galwad am i'r Brifysgol gyflogi un swyddog gweithredol amser llawn ac arno gyfrifoldeb dros Ddysgu trwy'r Gymraeg. Y mae hyn, y datblygiad pwysicaf o'r cyfan hyd yma, wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor gan holl gyrff y Brifysgol. Yn ôl a glywais yn ddiweddar, y broblem yw dod o hyd i'w gyflog. Gan nad oes neb wedi gofyn imi, nid wyf am awgrymu ym mha gangen o Wagedd ac Ofereidd Byd y gellid arbed arian ar gyfer creu'r swydd allweddol hon; ond y mae digon o ganghennau felly yn y Brifysgol a'i cholegau, coeliwch chi fi.

Cyfiawnhad creu'r swydd hon a phenodi rhywun iddi fydd ei fod ef neu hi yn mynd ymlaen i ffurfio cnewyllyn Coleg Ffederal Cymraeg. Dyna fydd ei waith. Mawr fydd ei gyfle a'i gyfrifoldeb.

Wedi nodi ambell arwydd cadarnhaol felly, a gawn n fentro edrych ymlaen? Rywdro yn ystod degawd cyntaf y ganrif newydd - ac o'r gorau, fe ddywedwn ni "ail hanner y degawd" - fe ddylid sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg. Dylai gysylltu a gwasanaethu dau, tri neu ragor o golegau Prifysgol Cymru, ac yn y man y cyfan ohonynt, ac efallai sefydliadau addysg uwch eraill. Dylai fod iddo ryw ddau gant o ddysgwadwyr; ni allaf yn fy myw ei weld yn gweithredu'n effeithiol ar lai. Oherwydd byddai raid iddo drafod "holl synnwyr pen Cymro gyd" - Hanes, Daearyddiaeth, Daeareg, Cyfraith, Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Bywydeg, Biocemeg, Cerddoriaeth, Crefydd, Electroneg, Amaethyddiaeth, Gwleidyddiaeth, Athroniaeth, Economeg, Seicoleg ac amrywiaeth o ieithoedd modern (ac ambell un hen, byddai'n dda meddwl) ynghyd â'u llenyddiaethau. Diau y gall y darllenwyr feddwl am ambell -eg ac -aeth arall yr hoffent eu hychwanegu. Ym mhen yr athrawon oll bydd angen tîm golygyddol cryf o'r Cymreigwyr gorau a fydd ar gael, i ddarparu rhai defnyddiau ysgrifenedig sylfaenol ym mhob pwnc. Dylai cwrs gloywi'r Gymraeg, a'i hymarfer wrth drin ei bwnc, fod ar gynnig i bob myfyriwr, ynghyd a thystysgrif i'r sawl a fydd wedi profi ei fedr.

Byddai'n dda cael rhyw arwydd fod yr enw "Coleg William Salesbury" yn golygu rhywbeth i'r cyrff sy'n llunio polisi'r Brifysgol ac i'r gwŷr a'r gwragedd sy'n aelodau ohonynt, a bod yr anogaeth "Mynnwch ddysg yn ych iaith" eto'n gallu deffro ymateb.

O.N. (7.11.00) Ysgrifennais yr erthygl hon ac o'm blaen ddrafft o'r Adroddiad Datblygu'r Ddarpariaeth: Y Ffordd Ymlaen wedi ei adolygu 20.1.99. Ddyddiau wedi i'r erthygl ymddangos daeth drafft arall o'r adroddiad â'r dyddiad 20.8.00. Wele Trostsci wedi diflannu unwaith eto! Mae eisiau llygaid yng nghefn eich pen yn y gêm hon.

[Cyhoeddwyd yn Y Faner Newydd, Haf 1999]